Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru

Medi 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru

Medi 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae goruchwylio llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Jane Hutt AC**
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



**Steffan Lewis AC**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**David Rees AC**
Llafur Cymru
Aberafan

Roedd yr Aelod canlynol yn bresennol fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Roedd Simon Thomas AC hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad.

# Cynnwys

**Argymdellion** ..... 5

**Casgliadau** ..... 7

**Rhagair y Pwyllgor** ..... 9

**1. Y cefndir** ..... 11

**2. Cyflwyniad** ..... 12

**3. Cyllid i Gymru ar ôl Brexit a diwygio fformiwla Barnett** ..... 14

**4. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Sicrhau cyfran Cymru** ..... 21

**5. Datganoli cyfran Cymru o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU** ..... 31

**6. Sut y gallai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU weithredu yng Nghymru** ..... 37

**7. Disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin - Bargen deg i Gymru** ..... 46

**8. Ffrydiau cyllido eraill** ..... 56

**Atodiad A – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** ..... 65

**Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... 66

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi roi blaenoriaeth i'r trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gael y fargen gyllido orau bosibl, i sicrhau na fydd Cymru "geiniog ar ei cholled" ar ôl Brexit. Mae'r Pwyllgor yn argymell fod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio trafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymrwymo i drafodaeth lawn ar y mater hwn. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu dewis amgen hirdymor cynaliadwy yn lle fformiwla Barnett, sy'n dyrannu cyllid ar draws y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar angen. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau o leiaf yr un swm o arian i Gymru yn y lle cyntaf drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU â'r hyn y mae'n ei gael ar hyn o bryd drwy Gronfeydd Strwythurol, ynghyd â chwyddiant. Dylid ychwanegu hyn at Grant Bloc Llywodraeth Cymru, a dylai'r trefniant barhau. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan y Dr Hywel Ceri Jones, cyn Lysgennad Cyllido yr UE, ac Ysgrifennydd y Cabinet fod angen uned ganolog yn Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit i sicrhau fod ganddi'r capasiti a'r arbenigedd angenrheidiol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn negodi gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael y cyfrifoldeb am weinyddu a rheoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu uned ganolog sydd â'r arbenigedd a'r capasiti angenrheidiol i ddarparu rhaglen gydlynus o gyllid ar ôl Brexit ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar symleiddio'r trefniadau gweinyddol ac yn defnyddio dulliau fel y rhai a gynigir ar gyfer sefydliadau partner dibynadwy, pe bydd yn gallu datganoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ........ Tudalen 45

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar hybu cydraddoldeb, mynd i'r afael â thlodi, a hawliau dynol wrth weinyddu cyfran Cymru o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn y dyfodol. ........ Tudalen 45

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Cymru yn parhau i gael y lefel bresennol o gyllid ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Dylid gwarantu hyn am nifer o flynyddoedd er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector rheoli tir. ......Tudalen 55

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod fframwaith y Deyrnas Unedig gyfan ar gyfer cymorth amaethyddol yn parchu'r setliad datganoli ac yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i Lywodraeth Cymru i'w galluogi i wneud penderfyniadau sy'n cefnogi anghenion penodol y sector rheoli tir yng Nghymru. ......Tudalen 55

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal perthynas barhaus â Banc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit i sicrhau y gall Cymru a'r Deyrnas Unedig elwa o fuddsoddiad parhaus mewn prosiectau seilwaith allweddol. ......Tudalen 64

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i ystyried dulliau o sicrhau bod modd i Gymru gadw manteision ffrydiau ariannu'r UE i hybu cydraddoldeb, fel y rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth, a bod y cyllid hwn yn parhau ar ôl Brexit. ......Tudalen 64

# Casgliadau

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai o fudd i holl wledydd y Deyrnas Unedig barhau i dderbyn o leiaf y swm o arian y maent yn ei gael ar hyn o bryd drwy Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd o Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd y DU. .......... Tudalen 30

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen deall yn well pa fodelau ar gyfer dyrannu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a allai weithio orau i Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig yn y tymor hirach. Dymuna'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i werthuso modelau posibl cyn gynted ag y bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan Lywodraeth y DU am Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. .......... Tudalen 30

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU:

- ddarparu cyllid amlflwydd;
- sicrhau gweithio mewn partneriaeth; a
- pharhau i brif ffrydio cydraddoldeb yng Nghymru. .......... Tudalen 45

**Casgliad 4.** Pe bai Cymru'n cael o leiaf y lefel bresennol o gyllid pan benderfynir ar y dyraniadau ar ôl y PAC, byddai'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid corlannu'r lefel gyllido bresennol y tu hwnt i dymor presennol Llywodraeth Cymru. .......... Tudalen 55

**Casgliad 5.** Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu fframwaith ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan ar gyfer cymorth amaethyddol i sicrhau bod Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig yn gallu manteisio ar bolisïau ffres sy'n cael eu cyfeirio'n fwy at eu hanghenion penodol nag yr oedd y Polisi Amaethyddol Cyffredin. .......... Tudalen 55

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i geisio mynediad at Horizon Europe, ac mae'n ei hannog i ddod i drefniant lle gall Cymru a'r Deyrnas Unedig gymryd rhan yn y rhaglen hon. Fodd bynnag, os na all y Deyrnas Unedig sicrhau mynediad at Horizon Europe, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau bod cyllideb ymchwil a gwyddoniaeth y Deyrnas Unedig yn cael cyllid ychwanegol sy'n cyfateb i'r hyn a sicrhawyd gan y Deyrnas Unedig o Horizon 2020 neu fwy .......... Tudalen 63

**Casgliad 7.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig roi mwy o eglurder sut y bydd Gwarant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar ddarparu'r Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop bresennol, ac ar faint y gwarant. ......Tudalen 64

# Rhagair y Pwyllgor

Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd y Deyrnas Unedig mewn refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd. Ers hynny, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn rhan o drafodaethau i sicrhau'r fargen orau bosibl yn sgil Brexit.

Ar hyn o bryd mae Cymru'n cael tua £680 miliwn y flwyddyn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd, sy'n sylweddol fwy y pen nag unrhyw un o'r gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, a bydd sicrhau cyllid ôl-Brexit i Gymru yn hanfodol. Am y rheswm hwn, mae'r Pwyllgor Cyllid wrthi'n cynnal ymchwiliad i asesu'r paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Cymru wedi cael symiau sylweddol o arian yr Undeb Ewropeaidd, yn bennaf drwy Gronfeydd Strwythurol a gynlluniwyd i fynd i'r afael â thlodi a lleihau anghysondebau rhanbarthol; a thrwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn disodli'r Cronfeydd Strwythurol, ond ychydig iawn o fanylion a gwybodaeth sydd wedi dod i'r amlwg ynghylch y Gronfa. Mae ein hadroddiad yn amlygu sut y gellid rhannu'r Gronfa rhwng y pedair gwlad, gan gyflwyno achos cryf i Gymru beidio â bod yr un geiniog ar ei cholled o ganlyniad i Brexit, ac i Lywodraeth Cymru reoli a gweinyddu cyfran Cymru.

Mae cyllid o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) wedi cael cryn effaith ar ffermydd unigol, yn enwedig o ystyried y gorsymiau ariannol tyn sy'n gysylltiedig â'r sector amaethyddol. Bydd cynnal y lefelau cyllido cyfredol o bwysigrwydd mawr yn y dyfodol i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cefnogi'r sector yn ddigonol.

Rydym yn ystyried Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a disodli'r PAC fel cyfle i lunio dull strategol ar gyfer Cymru. Gallwn ddysgu llawer o wersi o'r gorffennol, ac mae gennym gyfle yn awr i symud ymlaen i gyflawni gwelliannau diriaethol a lleihau biwrocratiaeth i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu cyflawni.

Mae'n amlwg bod y mwyafrif o'r penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud ag arian ôl-Brexit i Gymru yn nwylo Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fel Pwyllgor, rydym yn siomedig gyda'r diffyg ymgysylltiad a gafwyd hyd yma gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyda ni ar y mater hynod arwyddocaol hwn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan ganolog mewn trafodaethau, ac felly gwneir ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru. Credwn fod y dystiolaeth a gafwyd a'r adroddiad a gyflwynwyd gennym yn ffurfio "achos cryf

dros Gymru", ac rydym yn gobeithio y bydd yn ychwanegu sylwedd i sefyllfa negodi Llywodraeth Cymru.

Mater i'r ddwy Lywodraeth fydd gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y fargen orau yn cael ei sicrhau i Gymru, ond gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y mae'r pŵer i gyflawni'r argymhellion hyn i bob pwrpas. Gan hynny, byddem yn annog y ddwy Lywodraeth i ystyried ein hargymhellion ac ymateb i'r Pwyllgor.

Brexit yw'r mater mwyaf sy'n ein hwynebu ni heddiw, a bydd yn cael effaith enfawr ar Gymru. Nawr bod cytundeb ar oblygiadau cyfansoddiadol Bil Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi ei sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gobaith y Pwyllgor Cyllid yw y bydd y sylw'n troi at sicrhau bargen deg i Gymru a'i phobl.

# 1. Y cefndir

**1.** Wrth i'r Deyrnas Unedig baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019, amlygodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor), yn ei adroddiad craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19, ei fwriad i ymgymryd â gwaith ar y paratoadau ariannol i adael yr Undeb Ewropeaidd.

**2.** Ar 8 Chwefror 2018, cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

- asesu'r gwaith cynllunio ariannol ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, a'r hyn sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd posibl o ran lefelau cyllido a chyfrifoldeb gweinyddol.
- archwilio pa ddulliau o weinyddu'r newidiadau hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd a allai gyflawni'r canlyniadau gorau i Gymru, ac i ba raddau y gallai'r rhain ail-greu neu fod yn wahanol i'r trefniadau presennol.

**3.** Rhwng 9 Mawrth 2018 ac 11 Mai 2018, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus i'w gynorthwyo yn ei waith, a daeth 30 ymateb i law.

**4.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn.

# 2. Cyflwyniad

## 2. 1. Cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd

**5.** Roedd maniffesto'r Ceidwadwyr ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2017 yn ymrwymo i sefydlu Cronfa Ffyniant Gyffredin ledled y Deyrnas Unedig, gan nodi bod cronfeydd strwythurol presennol yr Undeb Ewropeaidd yn ddrud i'w gweinyddu a'u bod wedi eu targedu'n wael. Cynigiwyd yn y maniffesto y byddai'r Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn helpu i sicrhau twf cynaliadwy a chynhwysol ar draws pob rhan o'r Deyrnas Unedig, yn unol â'r Strategaeth Ddiwydiannol. Roedd yn nodi fel a ganlyn:

> "We will use the structural fund money that comes back to the UK following Brexit to create a United Kingdom Shared Prosperity Fund, specifically designed to reduce inequalities between communities across our four nations.... We will consult widely on the design of the fund, including with the devolved administrations, local authorities, businesses, and public bodies. The UK Shared Prosperity Fund will be cheap to administer, low in bureaucracy and targeted where it is needed most".[1]

**6.** Ym mis Ionawr 2018, amlinellodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig (Michael Gove AS) ei gynlluniau ar gyfer sut y caiff cymorthdaliadau ffermio eu darparu ar ôl Brexit. Dywedodd fod y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn bolisi diffygiol yn ei hanfod gan mai ffermwyr cyfoethog y mae'n eu gwobrwyo fwyaf, ei fod yn gwobrwyo ffermwyr am ddefnyddio dulliau sy'n aneffeithlon o ran adnoddau, ac nad yw o fudd digonol i'r amgylchedd.

**7.** Ymgynghorodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ei chynigion cyllido ar gyfer Lloegr yn y dyfodol, a daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mai 2018.

**8.** Mae papur safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn ag ymchwil ac arloesi ar ôl Brexit yn amlinellu ei safbwynt negodi yn y maes hwn. Yn fwyaf diweddar, ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddogfen o dan y teitl Framework for the UK-EU partnership: Science, research and innovation. Nodwyd yn hon fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i gytundeb gwyddoniaeth ac arloesi pellgyrhaeddol gyda'r Undeb Ewropeaidd, ac y

[1] Y Blaid Geidwadol (2017), Ymlaen Gyda'n Gilydd: Y Maniffesto Ceidwadol

byddai'n dymuno trafod y dewis o gymdeithas lawn â Horizon Europe wedi ei seilio ar dri maes: strwythur, dylanwad a chyfraniad.

**9.** Wrth ateb cwestiwn ym mis Mai 2018 mewn perthynas â chyfranogiad yn y Deyrnas Unedig yn ERASMUS+ yn y dyfodol, dywedodd Prif Weinidog Prydain:

> "We have said there are certain programmes that we wish to remain part of when we leave the European Union, and Erasmus is one of those we have cited that we may wish to remain part of, but of course we are in a negotiation with the European Union and we will be dealing with these matters in that negotiation."[2]

**10.** Ym mis Mehefin 2018, dywedodd Jake Berry, Is-ysgrifennydd Seneddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol:

> "The Government considers that it may prove to be in the mutual interest of all sides for the UK to maintain some form of ongoing relationship with the EIB [Banc Buddsoddi Ewrop] Group after leaving the EU. We will explore these options with the EU as part of the negotiations on the future relationship, and will also consider whether any further government support is required."[3]

**11.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith y bydd yn tynnu'n ôl o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar ôl Brexit, gyda'r Deyrnas Unedig yn wladwriaeth arfordirol annibynnol.[4] Nodir yn ei Phapur Gwyn y bydd hyn yn golygu y bydd y Deyrnas Unedig yn penderfynu pwy all gael mynediad at ei dyfroedd ar ôl 2020, a bydd fframwaith ledled y Deyrnas Unedig yn cael ei ddatblygu ar gyfer rheoli pysgodfeydd ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig.

[2] Hansard, 16 Mai 2018, Colofn 277

[3] Hansard, 19 Mehefin 2018, Cwestiwn Ysgrifenedig 152765

[4] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Sustainable fisheries for future generations


# 3. Cyllid i Gymru ar ôl Brexit a diwygio fformiwla Barnett

## Y cefndir

**12.** Ar hyn o bryd mae Cymru yn cael tua £680 miliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd bob blwyddyn. Dyma'r prif ffynonellau:

- £295 miliwn drwy Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop;
- £274 miliwn o daliadau uniongyrchol i ffermwyr drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; ac
- £80 miliwn o gyllid o'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

Ffigur 1: Ffynonellau cyllid Cymru drwy'r Undeb Ewropeaidd




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Diogelu Dyfodol Cymru

**13.** Ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diogelu Dyfodol Cymru, gelwir am i'r cyllid y mae Cymru'n ei gael gan yr Undeb Ewropeaidd gael ei ddisodli gan

addasiad i'r grant bloc sy'n ychwanegu chwyddiant at y cyllid a dderbynnir ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid addasu swm sylfaenol taliad Grant Bloc Cymru fel ei fod yn adlewyrchu'r golled ariannol i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd, gan ystyried hefyd y cyllid y byddai Cymru wedi disgwyl yn rhesymol ei gael fel arall o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd.

**14.** Yn ei adroddiad ar ddyfodol polisi rhanbarthol, dywedodd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad ei fod yn pryderu am y risgiau a oedd ynghlwm wrth addasu'r grant bloc yn y tymor hwy. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru brawfesur y cyllid hwn ar gyfer y dyfodol, ac archwiliodd rinweddau fformiwla wrthrychol wedi ei seilio ar anghenion, y bydd pob un o wledydd y Deyrnas Unedig yn cytuno arni.

**15.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen o dan y teitl Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit ym mis Rhagfyr 2017. Yn y ddogfen, nodir nifer o gamau yr hoffai weld Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn eu cymryd, gan gynnwys:

- cynyddu grant bloc Llywodraeth Cymru yn barhaol, a hynny o leiaf i'r lefelau a gafwyd yn hanesyddol drwy Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r Undeb Ewropeaidd heb gyfyngiadau gwario;
- y Deyrnas Unedig a Chymru yn parhau i gymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni cydweithredu Ewropeaidd, gan gynnwys Horizon 2020, ERASMUS+, Creative Europe ac amrywiaeth o Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (fel rhaglen Iwerddon-Cymru);
- na fyddai Llywodraeth Cymru yn cytuno i weinyddu cyllid lle'r oedd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd hefyd yn gwrthwynebu creu Cronfa Ffyniant Gyffredin yn y Deyrnas Unedig wedi ei rheoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

## Tystiolaeth ymatebwyr

**16.** Tynnodd sefydliadau sylw at yr effaith y mae ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllido yn y dyfodol yn ei chael ar fusnesau, cyrff y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn enwedig o ran Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

**17.** Er bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi lobïo Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau cyllid llawn i Gymru i ddisodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd, roedd yn pryderu "nad oes fawr ddim

sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch ffurf a llywodraethiad posibl unrhyw gyllid yn y dyfodol".[5]

**18.** Dywedodd Chwarae Teg wrth y Pwyllgor na fu fawr o arwydd beth fydd yn disodli arian yr Undeb Ewropeaidd, a bod angen eglurder ynghylch sut y bydd cyllid yn cael ei weinyddu yn y dyfodol, faint fydd Cymru'n ei dderbyn, a'r hyn fydd yr arian yn ei gyllido.[6]

**19.** Cyfeiriodd Prifysgolion Cymru at y risgiau sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd mewn cyllid. Nodwyd bod yr ansicrwydd ynghylch trefniadau yn y dyfodol yn effeithio'n negyddol ar brifysgolion. Yn eu barn nhw, bydd yn bwysig bod trefniadau i ddisodli cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu cadarnhau a'u cyfathrebu mewn pryd i atal prifysgolion rhag gwneud penderfyniadau a allai effeithio'n negyddol ar seilwaith a gweithgareddau yn y dyfodol.[7]

**20.** Dangosodd tystiolaeth mai cyfyngedig oedd y consensws ar y dull gorau o gyllido yn y tymor hirach. Galwodd Sefydliad Bevan ar Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith brys i sefydlu mecanwaith ar gyfer dyrannu arian newydd a fyddai'n gweithio orau i Gymru, i gasglu cefnogaeth Cymru gyfan yn gyflym.[8]

**21.** Roedd Sefydliad Bevan yn ansicr a fyddai addasu'r llinell sylfaen ar gyfer fformiwla Barnett yn gweithio dros y tymor hwy, gan nodi:

> "I can see that that's an attractive position, but I think it all depends how the Barnett formula moves forward. I can see it's attractive because it locks it in for ever more, but I think it all depends on whether the Barnett squeeze applies in future years."[9]

**22.** Teimlai Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) y byddai addasu'r llinell sylfaen ar gyfer fformiwla Barnett yn gwbl deg a rhesymol fel rhan o drefniant trosiannol, ac mai dyna fyddai'r dull gweithredu mwyaf syml yn ôl pob tebyg, o gofio am "yr amserlenni dan sylw".[10]

**23.** Ychwanegodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y gallai defnyddio fformiwla Barnett i gyfrifo newidiadau o flwyddyn i flwyddyn arwain at gyllid Cymru yn cael ei wasgu i'r fath raddau fel bod ei chyllid cymharol o gronfeydd cyfredol yr Undeb

---

[5] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 10

[6] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 24

[7] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 08

[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraffau 43-45

[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraff 39


[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraff 130

Ewropeaidd o gymharu hynny â Lloegr yn gostwng yn sylweddol o 361 y cant yn 2020 i 194 y cant yn 2050. Eglurodd:

> "These squeezes arise because the Barnett formula takes no account of the higher initial levels of funding in Wales – which means a given cash change translates into a much smaller percentage change – and is based on nominal changes rather than real-terms changes in funding."[11]

**24.** Yn Ffigur 2 isod dangosir sut y byddai "gwasgfa Barnett" yn effeithio ar lefelau cyllido newydd pe bai fformiwla Barnett yn cael ei defnyddio, gan dybio bod Cymru yn cael yr un swm o arian yn y lle cyntaf ag y mae yn awr, ond yn cael dyraniadau dan fformiwla Barnett yn y dyfodol.

Ffigur 2: Effaith "gwasgfa Barnett" ar gyllid Cymru pe bai Cymru yn cael yr un swm o arian yn y lle cyntaf ag y mae yn awr, ond yn cael dyraniadau dan fformiwla Barnett yn y dyfodol.




Ffynhonnell: Tystiolaeth Ysgrifenedig EUF 21 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

**25.** Roedd barn glir gan rai ymatebwyr na fyddai defnyddio fformiwla Barnett i benderfynu ar gyfran gychwynnol yn seiliedig ar boblogaeth o ffrydiau cyllido newydd yn darparu cyllid digonol i Gymru. Amlygodd yr Athro Fothergill fod Cymru'n cael 24 y cant o Gronfeydd Strwythurol y Deyrnas Unedig,[12] tra nododd yr

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 21

[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 29

undebau ffermio bod Cymru'n cael tua dwywaith cyfran ei phoblogaeth o gyllid drwy'r PAC.[13]

**26.** Tynnodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid sylw at y ffaith nad yw fformiwla Barnett yn ystyried y gwahaniaethau mewn anghenion cyllido na'r twf mewn poblogaeth rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig, a phe bai'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo cyllid, gallai Cymru fod o dan anfantais sylweddol.[14] Awgrymodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid mai dull arall fyddai defnyddio'r fformiwla wedi ei fynegeio fesul pen o'r boblogaeth (IPC) a ddefnyddiwyd fel rhan o Fframwaith Cyllidol yr Alban. Dywedai pe bai hyn yn cael ei fabwysiadu y byddai'n darparu'r un newid canrannol mewn cyllid fesul unigolyn yng Nghymru ag yn Lloegr.[15]

**27.** Fodd bynnag, awgrymodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd y gallai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ddymuno dyrannu arian mewn ffyrdd sy'n ystyried mwy na dim ond lefelau cyllido cychwynnol a thwf cymharol poblogaeth. Nododd y bydd angen gwneud dewisiadau allweddol, gan gynnwys y lefelau cychwynnol o ddyraniadau cyllid, i ba raddau y dylid neilltuo arian, pa ddaearyddiaethau y dylid eu defnyddio i ddyrannu cyllid a sut i fynegeio newidiadau i gyllid dros amser.

**28.** Mewn perthynas â chyllid i ddisodli arian amaethyddiaeth, dywedodd CIPFA y byddai defnyddio fformiwla Barnett i ddyrannu cyfran yn seiliedig ar y boblogaeth yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y cyllid sydd ar gael, ac na fyddai'n adlewyrchu anghenion sector ffermio Cymru.[16]

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**29.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (Ysgrifennydd y Cabinet) na ddylai gadael yr Undeb Ewropeaidd olygu unrhyw ostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i Gymru, gan y byddai "yn peryglu ein gallu i gefnogi'r gweithgareddau rydym yn eu cyllido ar hyn o bryd drwy raglenni'r Undeb Ewropeaidd".[17]

**30.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd wedi cael "trafodaethau o gwbl ar lefel gweinidogaethol" mewn perthynas â sut y byddai arian yn y dyfodol yn cael ei ddyrannu i Gymru. Dywedodd fod yr Alban hefyd mewn sefyllfa debyg.[18]

---

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 22
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 21
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 21
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 19
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 173

**31.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi galw am ddisodli fformiwla Barnett â system sy'n seiliedig ar reolau, a fyddai'n sicrhau bod dyrannu adnoddau yn y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar angen cymharol.[19] Mae papur Llywodraeth Cymru, Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit, yn ehangu ar y safbwynt hwn. Mae'n galw am drefniadau ariannol sy'n galluogi pob rhan o'r Deyrnas Unedig i ddarparu lefel gyfatebol o wasanaethau, gan ystyried anghenion cymharol y boblogaeth a rhagdybio ymdrech dreth gyfatebol. Byddai'r ymagwedd hon yn rhan o Gytundeb Cyllidol newydd y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys ymagwedd sy'n seiliedig ar egwyddorion tuag at gyllido a rhwydweithiau cyllidol, gyda goruchwyliaeth annibynnol.

**32.** Fodd bynnag, ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet ei safbwynt hefyd y dylai'r arian ar gyfer Cymru ddod drwy addasiad i waelodlin y grant bloc. Dywedodd mai hwn hefyd oedd y dewis a ffefrir gan Lywodraeth yr Alban. Dywedodd:

> "I put it to the Chief Secretary to the Treasury, the couple of times I've discussed it with her, is to say, you know, 'The Treasury's a very busy place, hands-full with all sorts of desperately difficult problems over Brexit, here's one I can solve for you. So, here's something you don't need to worry about after that. Just put the money in the baseline."[20]

**33.** Amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai unrhyw ddewis cyllido arall, fel system gynnig neu herio neu ddyraniad cychwynnol yn seiliedig ar fformiwla Barnett yn annerbyniol i Gymru, gan y byddai "risg wirioneddol y byddai Cymru ar ei cholled yn fawr, ac na fyddai ein hanghenion, o ganlyniad, yn cael eu cydnabod yn iawn".[21]

**34.** Ategodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Cymru ar hyn o bryd yn elwa ar arian yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o anghenion, ac na fydd yr anghenion hynny yn peidio â bodoli pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.[22]

## Safbwynt y Pwyllgor

**35.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am ddiffyg ymgysylltiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig â Llywodraeth Cymru ar gyllid yn lle cyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru ar ôl Brexit, o gofio bod disgwyl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019. Mae'r Pwyllgor hefyd yn siomedig na fu

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 178
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 179
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 178

cytundeb hyd yma ar benderfyniadau allweddol ynghylch sut y caiff arian ei ddyrannu i weinyddiaethau datganoledig.

**36.** Mae'r ansicrwydd y mae'r diffyg hwn o ran ymgysylltu a gwneud penderfyniadau wedi ei achosi yn cael ei deimlo'n gryf gan sefydliadau sy'n cael arian yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'r Pwyllgor yn adleisio eu pryderon. Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig egluro'r sefyllfa ar frys mewn perthynas â chyllid yn lle ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd.

**37.** Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, mae'n eithaf clir y bydd effaith ddifrifol ar Gymru oni bai y bydd cyllid yn parhau i gael ei roi mewn modd sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'n hanfodol nad yw Cymru'n colli cyllid ar ôl Brexit, a dylai Cymru barhau i gael yr arian sy'n cyfateb i'r swm y byddai wedi ei gael drwy ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd pe na bai'r Deyrnas Unedig wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd.

**38.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod llawer o'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai fformiwla Barnett yn anaddas i ddyrannu cyllid newydd ar ôl Brexit, ac yn credu y dylid datblygu model arall.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi roi blaenoriaeth i'r trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gael y fargen gyllido orau bosibl, i sicrhau na fydd Cymru "geiniog ar ei cholled" ar ôl Brexit. Mae'r Pwyllgor yn argymell fod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio trafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymrwymo i drafodaeth lawn ar y mater hwn.


**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu dewis amgen hirdymor cynaliadwy yn lle fformiwla Barnett, sy'n dyrannu cyllid ar draws y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar angen.

# 4. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Sicrhau cyfran Cymru

## Y cefndir

**39.** O dan rownd 2014-2020 o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, bydd Cymru yn cael £2.1 biliwn o gyllid, gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn rhoi £1.1 biliwn yn ychwanegol at hynny.[23] Mae hyn wedi cyllido buddsoddiad mewn seilwaith, ymchwil ac arloesi a sgiliau. Mae Ffigur 3 isod yn dangos y prif feysydd a fydd yn cael arian o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn ystod rownd 2014-20 y Cronfeydd Strwythurol.

Ffigur 3: Dyraniadau'r Cronfeydd Strwythurol i feysydd gwario, 2014-20





Ffynhonnell: Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli effaith Brexit ar gronfeydd strwythurol yr UE

[23] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE

**40.** Mae Cymru yn cael cryn dipyn yn fwy y pen drwy Gronfeydd Strwythurol nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, gan fod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael eu cyfrif fel "rhanbarth llai datblygedig" gyda Chynnyrch Domestig Gros (GDP) y pen o dan 75 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd. Dengys Ffigur 4, dros gyfnod cyllido 2014-2020, y bydd Cymru'n cael dros bedair a hanner gwaith yn fwy o Gronfeydd Strwythurol y pen na chyfartaledd y Deyrnas Unedig.[24]

### Ffigur 4: Cronfeydd Strwythurol y pen yn y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, 2014-20




Ffynhonnell: Sheffield Political Economy Research Institute, UK regions and European Structural and Investment Funds

**41.** Ar hyn o bryd, yn y Deyrnas Unedig y mae'r gwahaniaeth economaidd rhanbarthol mwyaf mewn Cynnyrch Domestig Gros y pen o unrhyw un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.[25] Yn 2016, roedd gan Orllewin Llundain Fawr Gynnyrch Domestig Gros y pen o 611 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd, tra bod Cynnyrch Domestig Gros Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 68 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd, yr isaf o holl ranbarthau NUTS2[26] y


[24] Sheffield Political Economy Research Institute, UK regions and European Structural and Investment Funds

[25] Eurostat, GDP per capita in 276 EU regions - Regional GDP per capita ranged from 29% to 611% of the EU average in 2016

[26] Mae'r system Enwau ar Unedau Tiriogaethol ar gyfer Ystadegau (NUTS) yn fodd hierarchaidd o ddosbarthu ardaloedd gweinyddol, a gaiff ei ddefnyddio ledled yr Undeb Ewropeaidd at ddibenion ystadegol. Mae rhanbarthau NUTS2 yn ardaloedd gyda phoblogaeth o rhwng 800,000 a 3 miliwn.

Deyrnas Unedig. Nodir cymariaethau rhwng pob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau cyfredol yr Undeb Ewropeaidd yn ffigur 5.

### Ffigur 5: Gwahaniaethau Cynnyrch Domestig Gros rhwng rhanbarthau NUTS2 yn Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd




*Capital region of London consists of 5 regions at NUTS2 level.
The bar shows for each Member State the range from the region with the lowest value to that with the highest value.

Ffynhonnell: Eurostat, GDP per capita in 276 EU regions - Regional GDP per capita ranged from 29% to 611% of the EU average in 2016

## Tystiolaeth ymatebwyr

**42.** Cafwyd cefnogaeth gref i safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU na ddylai Cymru fod geiniog ar ei cholled mewn cymhariaeth â phe byddai wedi bod o fewn yr Undeb Ewropeaidd.[27]

**43.** Cefnogwyd y safbwynt hwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Sefydliad Bevan, Chwarae Teg, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (FSB Cymru), yr Athro Fothergill, Dr Guilford, Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru, Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru (RTPI Cymru), Prifysgolion Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**44.** Crynhodd yr Athro Fothergill effaith cyllid disodli annigonol, neu fethiant i ddisodli Cronfeydd Strwythurol, drwy ddweud y byddai'n "ergyd ddinistriol i ddatblygiadau economaidd yng Nghymru".[28]

[27] Llywodraeth Cymru, Diogelu Dyfodol Cymru

[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraff 184

**45.** Roedd y rhai a roddodd dystiolaeth i’r Pwyllgor yn cyflwyno dwy brif ddadl ynghylch pam y dylai Cymru barhau i gael y lefelau cyfredol o fuddsoddiad drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sef:

- pwysigrwydd Cronfeydd Strwythurol o ran darparu buddsoddiad ychwanegol hanfodol i Gymru na ellid fod wedi ei gyflawni gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru yn unig; a hefyd
- pwysigrwydd cyllid i Gymru fel ffordd o fynd ati i wella’r broses o gydbwyso economi’r Deyrnas Unedig.

**46.** Amlygodd yr Athro Fothergill a Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod Cronfeydd Strwythurol yn hanfodol o ran cynnal gweithgarwch Llywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd allweddol lle mae angen i’r buddsoddiad hwn barhau ar y lefel gyfredol. Dywedodd yr Athro Steve Fothergill:

> “What is clear is that the EU co-finances a vast range of projects, in Wales and elsewhere in the UK, ranging from training and skills development to business support, R&D, infrastructure and environmental improvement. The projects vary greatly in size and in geographical coverage. It is reasonable to assume that in the absence of EU funding hardly any of the projects would have proceeded on the same scale if at all.”[29]


**47.** Dywedodd FSB Cymru fod ei ymchwil yn dangos bod ychydig o dan chwarter o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru wedi elwa ar arian Ewropeaidd, gan eu galluogi i gyflawni gwelliannau o ran sgiliau, ymgymryd ag Ymchwil a Datblygu, a datblygu eu busnesau. Cred FSB Cymru ei bod yn hanfodol cynnal cyfaint y cyllid er mwyn caniatáu i hyn barhau ar ôl i’r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.[30]

**48.** Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig yr Athro David Bell i’r Pwyllgor fod y rhannau tlotaf o Gymru dros yr ugain mlynedd diwethaf yn gyson wedi bod â ffigurau Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) is y pen nag ardaloedd yn Lloegr a’r Alban (wedi eu mesur ar lefel NUTS3). Yn y rhannau tlotaf o Gymru, dim ond hanner cyfartaledd y Deyrnas Unedig yw Gwerth Ychwanegol Gros y pen, ond yn Lloegr a’r Alban, mae Gwerth Ychwanegol Gros y pen tua 60 y cant o gyfartaledd y Deyrnas Unedig.[31] Dangosir hyn yn ffigur 6. Dywedodd yr Athro Bell:

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 29
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 17
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 31

> "… the gap between the poorest parts of Wales and the UK average seems to have been increasing since 2008 (the same is true of the poorest parts of Scotland and England). Thus, there is no evidence of reductions in the gap between the poorest and richest parts of the UK between 1997 and 2016 – indeed the evidence points more to an increase in inequality."[32]

Ffigur 6: Gwerth Ychwanegol Gros ardaloedd yng ngwledydd y Deyrnas Unedig sydd â'r Gwerth Ychwanegol Gros isaf y pen




Ffynhonnell: Tystiolaeth Ysgrifenedig EUF 31, Yr Athro David Bell, Prifysgol Stirling

**49.** Amlygodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, sef yr awdurdod lleol sydd â'r Gwerth Ychwanegol Gros isaf y pen ledled y Deyrnas Unedig,[33] bwysigrwydd "lefelu am i fyny" a sicrhau nad oes yr un ardal yn cael ei gadael ar ôl. Fel ardal sydd â lefelau heriol o dlodi, amddifadedd, a rhai bylchau o ran sgiliau, mae'n galw am ddarparu cyllid disodli ar sail debyg i'r trefniadau presennol, gyda rhagor o adnoddau'n canolbwyntio ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.[34]

[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 31

[33] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Regional gross value added (balanced) by local authority in the UK

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 15

**50.** Nododd Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru na fu unrhyw newid radical mewn ffyniant i gyfiawnhau newid yng nghyfrannau'r cyllid sy'n mynd i Gymru a'r tair gwlad arall yn y Deyrnas Unedig. Gan hynny, roedd yn cefnogi'n llawn safbwynt Llywodraeth Cymru na ddylai Cymru fod "geiniog ar ei cholled".[35]

**51.** O ystyried y lefelau uchel o angen ledled Cymru, cafwyd consensws yn y dystiolaeth y dylai'r arian gael ei ddyrannu mewn ffordd sy'n blaenoriaethu'r ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf.

**52.** Awgrymodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru (CLA Cymru):

> "We are realistically not far from a world where current Structural Funds in Wales collide with the UK Government's ideas set out in the UK Prosperity Fund with funding mechanisms for city deals, regional growth deals and sector deals becoming the norm."[36]

**53.** Nododd yr Athro David Bell hefyd fod mentrau diweddar Llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel y Fargen Ddinesig a'r Fargen Twf a'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd wedi cael eu dylunio fel bod sefydliadau'n cyflwyno ceisiadau iddynt am gyllid.[37]

**54.** Mynegodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, bryder, pe bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn creu Cronfa Ffyniant Gyffredin "yn seiliedig ar her" lle gall sefydliadau wneud cais am arian, y gallai Cymru fod o dan anfantais.[38] Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw at waith sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol a chyrff rhanbarthol i ymgysylltu â Chyllid Her Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gronfa Cryfder mewn Lleoedd, a mynegodd bryderon ynghylch gallu rhanbarthau Cymru i gystadlu am gyllid yn erbyn Partneriaethau Menter Leol Lloegr.[39]

**55.** Mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bryder y byddai gogledd a chanolbarth Cymru ar ei hôl hi o ran paratoi ar gyfer dull o gyllido ar sail her. Gwnaeth y Cynghorydd Rob Stewart, Dirprwy Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y pwynt nad oes gan yr ardaloedd hyn gyrff economaidd rhanbarthol ar waith ar hyn o bryd, gan fod Bargen Twf Gogledd Cymru yn aros am

---

[35] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 18

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 14

[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro David Bell, Prifysgol Stirling

[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 302

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 10

benderfyniad terfynol a bod Bargen Twf Canolbarth Cymru ar gamau cynnar ei datblygiad.[40]

**56.** Mynegodd CLA Cymru bryderon ynghylch effaith bosibl cronfa'n seiliedig ar her ar rannau gwledig o Gymru. Dywedodd ei fod yn "bryderus iawn" am allu'r Gymru wledig i gystadlu am gymorth ariannol o dan y dull hwn. Roedd o'r farn bod angen system yn seiliedig ar anghenion i ddiwallu anghenion y Gymru wledig, neu fel arall y gallai fod rhagor o leihad o ran gweithgareddau datblygu economaidd mewn cymunedau gwledig.[41]

**57.** Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn awgrymu, er bod potensial i gael rhagor o werth am arian o gronfeydd yn seiliedig ar her, mae perygl hefyd y bydd ardaloedd difreintiedig yn cael llai o gyllid.[42]

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**58.** Yn y ddogfen Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, nododd Llywodraeth Cymru ei safbwynt ar sut dylid y dyrannu arian yn y lle cyntaf i Gymru ar ôl i Gronfeydd Strwythurol gael eu disodli gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU:

> "Rydym yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud addewidion da yn ymgyrch refferendwm yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau nad yw Cymru'n geiniog yn waeth wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd. Cynyddu grant bloc Llywodraeth Cymru yn barhaol, a hynny o leiaf i'r lefelau a gafwyd yn hanesyddol drwy Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr Undeb Ewropeaidd, heb unrhyw gyfyngiadau gwario."

**59.** Byddai'r arian hwn yn cael ei ddyrannu i Grant Bloc Llywodraeth Cymru, a byddai chwyddiant yn cael ei ychwanegu i roi cyfrif am y cynnydd mewn prisiau.

**60.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai hwn yn ddull defnyddiol i Drysorlys EM yn ogystal â Chymru, gan y byddai'n ffordd gymharol syml o ddatrys yr hyn a allai fod yn broblem gymhleth fel arall. Nododd fod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig lawer o flaenoriaethau pwysicach i ddelio â nhw mewn perthynas â Brexit, ac mai'r ffordd symlaf o ddatrys materion cyllido ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU fyddai parhau i ddyrannu o leiaf lefelau cyllid cyfredol yr Undeb Ewropeaidd i bob un o wledydd y Deyrnas Unedig.[43]

---

[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 282

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 14

[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 21

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 178

**61.** Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod pobl Cymru wedi elwa ar dair rownd o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, cred bod heriau sylweddol yn parhau o ran cynhyrchiant a'r farchnad lafur, gyda rhai ardaloedd yn parhau i brofi anawsterau strwythurol hirdymor. Nodir yn ei phapur sefyllfa Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit:

> "Hyd at gwymp y banciau yn 2008 a'r dirwasgiad mawr a ddaeth wedi hynny, roedd pobl Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn well eu byd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r holl flynyddoedd o gyni wedi creu heriau economaidd sylweddol ond yn dilyn tri chylch dilynol o Gronfeydd Strwythurol yr UE, bydd pobl Cymru yn well eu byd, ac yn fwy parod nag y byddent wedi bod fel arall."[44]

**62.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn gwrthwynebu bod gofyn i Gymru wneud cais i gronfa'n seiliedig ar her sy'n cael ei rheoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan gredu y gallai'r dull hwn arwain at ddargyfeirio arian oddi wrth ardaloedd mewn angen. Dywedodd, er bod ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig a allai fod angen rhagor o gyllid i fynd i'r afael â'u materion economaidd, dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ofalu am hyn, ac ni ddylid tynnu arian oddi wrth Gymru i gynorthwyo ardaloedd eraill.[45]

**63.** Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet bryder hefyd y gallai'r dull hwn fod yn broblem i'r gwledydd datganoledig gan nad oes ganddynt y Partneriaethau Economaidd Lleol sydd ar waith yn Lloegr. Gan fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi arfer delio â'r sefydliadau hyn, teimlai Ysgrifennydd y Cabinet y gallant fod mewn sefyllfa fanteisiol oherwydd bod ganddynt ragor o ddealltwriaeth o sut maent yn gweithredu.[46]

**64.** Un senario cyllido arall nad oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei gefnogi oedd un lle byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi dyraniad neilltuol o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU iddi, gan fod potensial i'r dyraniad hwn gael ei ddyfarnu ar yr un pryd â thoriadau i feysydd eraill yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.[47]

**65.** Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i nodi, pe bai Cymru'n parhau i gael y lefel bresennol o gyllid ar ôl y Cronfeydd Strwythurol, byddai ef yn clustnodi'r arian a dderbyniwyd yn benodol at ddibenion datblygu economaidd rhanbarthol dros

---

[44] Llywodraeth Cymru, Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 190
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 211
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 191

gyfnod o sawl blwyddyn. Yn ei farn ef, byddai hyn yn rhoi sicrwydd i fudiadau sy'n cyflawni prosiectau y byddai cyllid yn parhau.[48]

**66.** O ran trefniadau cyllido tymor hirach, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod angen rhagor o drafodaethau a dadleuon i benderfynu pa fecanwaith cyllido y dylid ei ddefnyddio i ddyrannu cyllid rhwng gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.[49]

## Safbwynt y Pwyllgor

**67.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yr awydd i ddyrannu lefelau cyfredol o arian i'r gwledydd datganoledig, unwaith y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn weithredol, yn ymestyn y tu hwnt i Gymru. Mae Pwyllgor Economi, Swyddi a Gwaith Teg Senedd yr Alban hefyd wedi dod i'r casgliad bod achos cryf dros ddyrannu cyllid yn y dyfodol gan ddefnyddio'r fethodoleg gyfredol, gan nad yw amgylchiadau economaidd yr Alban wedi newid yn sylweddol.[50]

**68.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru yn llawn ac yn cydnabod yr achos cymhellol na ddylai "Cymru fod geiniog ar ei cholled" o ganlyniad i'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Cronfeydd Strwythurol wedi cael eu targedu i helpu economi Cymru a'r farchnad lafur i wella ar ôl degawdau o ddirywiad diwydiannol, yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol ar sail rheolau. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r dull wedi ei dargedu hwn barhau.

**69.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod amrywiaeth eang o setiau data economaidd yn dangos, er gwaethaf tair rownd o Gronfeydd Strwythurol, fod rhesymeg glir dros fuddsoddiad parhaus yng Nghymru fel rhan o gydbwysedd economaidd ehangach ledled y Deyrnas Unedig. Yn rhannau tlotaf Cymru, dim ond hanner cyfartaledd y Deyrnas Unedig yw GVA y pen, sy'n is na rhannau tlotaf Lloegr a'r Alban. Ni fydd y sefyllfa hon yn diflannu.

**70.** Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dystiolaeth a gafwyd y dylid dyrannu dyraniadau cyllid pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn y modd y gwneir hynny ar hyn o bryd, o leiaf. Mae'r Pwyllgor yn unfrydol yn cymeradwyo safbwynt Llywodraeth Cymru y dylai Cymru yn y lle cyntaf gael o leiaf yr un swm o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU â'r hyn y mae'n ei gael ar hyn o bryd drwy gyllid yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn rhoi sicrwydd i sefydliadau ynghylch arian ar gyfer

[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 183

[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 178

[50] Senedd yr Alban, Pwyllgor yr Economi, Swyddi a Gwaith Teg, Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Swyddi a Gwaith Teg, 22 Mehefin 2018

prosiectau a rhaglenni tymor hwy. Dylid cynnal y dyraniad hwn am nifer o flynyddoedd.

**71.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU barhau i weithredu drwy ddull sy'n seiliedig ar anghenion wedi ei bennu gan anghenion economaidd a chymdeithasol ardaloedd. Nid yw'r Pwyllgor yn cefnogi dulliau amgen fel cronfa sy'n seiliedig ar her lle mae'n ofynnol i sefydliadau ymgeisio am gyllid, gan na fyddem eisiau gweld ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd yn colli cyfle. Y Deyrnas Unedig sydd â'r gwahaniaeth economaidd rhanbarthol mwyaf o blith Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, ac mae angen cydbwyso ei heconomi fel blaenoriaeth frys.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai o fudd i holl wledydd y Deyrnas Unedig barhau i dderbyn o leiaf y swm o arian y maent yn ei gael ar hyn o bryd drwy Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd o Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd y DU.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen deall yn well pa fodelau ar gyfer dyrannu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a allai weithio orau i Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig yn y tymor hirach. Dymuna'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i werthuso modelau posibl cyn gynted ag y bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan Lywodraeth y DU am Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau o leiaf yr un swm o arian i Gymru yn y lle cyntaf drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU â'r hyn y mae'n ei gael ar hyn o bryd drwy Gronfeydd Strwythurol, ynghyd â chwyddiant. Dylid ychwanegu hyn at Grant Bloc Llywodraeth Cymru, a dylai'r trefniant barhau.

# 5. Datganoli cyfran Cymru o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

## Yr achos dros ddatganoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i Gymru

### Y cefndir

**72.** Mae datblygiad economaidd wedi'i ddatganoli i Gymru er 1999 ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am reoli Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ers mis Ebrill 2000.[51]

**73.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi y bydd yn sefydlu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar ôl Brexit. Mae llawer o fanylion y gronfa hon ar hyn o bryd yn aneglur, a disgwylir ymgynghoriad tua diwedd 2018. Yn benodol, nid yw sefyllfa Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y materion cyllido a drafodwyd yn y bennod flaenorol, a lefel datganoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a drafodir yn y bennod hon, yn hysbys eto.

### Tystiolaeth ymatebwyr

**74.** Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid bod Llywodrath Cymru yn gweinyddu cyfran Cymru o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae'r sefydliadau ac unigolion a gefnogodd hyn yn cynnwys Sefydliad Bevan, Chwarae Teg, CIPFA, FSB Cymru, yr Athro Fothergill, Dr Guilford, y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. I'r gwrthwyneb, nid oedd unrhyw unigolyn na sefydliad a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor, neu a roddodd dystiolaeth, yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i weinyddu'r gronfa yng Nghymru.

**75.** Y prif ddadleuon dros ddatganoli gweinyddiaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU oedd:

- Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion economaidd a chymdeithasol Cymru;
- mae WEFO wedi meithrin arbenigedd dros gyfnod o 20 mlynedd o gyflenwi'r rhaglenni a gaiff eu trosglwyddo ar ôl Brexit; a
- dylai'r setliad datganoli gael ei barchu gan fod datblygu economaidd yn fater sydd wedi'i ddatganoli.

[51] Wales Online, WEFO established with staff transferred from two bodies

**76.** Dywedodd y Dr Guilford, er bod Cronfeydd Strwythurol wedi cynnig llawer o fanteision, roedd cyfyngiadau o ran ble a sut y gellir eu defnyddio. Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sicrhau bod ganddi'r rhyddid sydd ei angen arni i benderfynu ar y dulliau o weinyddu cyllid yng Nghymru. Dywedodd pe bai arian yn cael ei reoli yn bennaf ar lefel Cymru gyfan, gellid cael gwared ar y cyfyngiadau hynny a byddai Llywodraeth Cymru yn gallu cymryd golwg strategol ar ofynion economi Cymru yn gyffredinol.[52]

**77.** Tynnodd Chwarae Teg sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru allu dylunio system sy'n blaenoriaethu anghenion Cymru yn llawn, yn enwedig menywod Cymru. Ym marn Chwarae Teg, dim ond drwy ddatganoli'r broses o weinyddu cyllid i Gymru y gellir cyflawni hyn.[53]

**78.** Dywedodd CIPFA y dylai rôl Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth lunio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU mewn gweinyddiaethau datganoledig gael ei gyfyngu i'r egwyddorion lefel uchel, ac y dylai Llywodraeth Cymru allu datblygu ei rhaglenni ei hun sy'n bodloni ei hamcanion a'i rhaglen lywodraethu.[54]

**79.** Dangosodd tystiolaeth fod cydnabyddiaeth o'r arbenigedd yn WEFO, ac awgrymodd ymatebwyr amryw ffyrdd y gellid defnyddio hyn. Dywedodd Chwarae Teg y dylid cadw pwynt mynediad canolog ar gyfer cyllid, ond gwnaeth y pwynt hefyd y byddai angen diwygio'r corff (WEFO ar hyn o bryd), er enghraifft lleihau biwrocratiaeth.[55]

**80.** Cytunodd FSB Cymru na ddylid colli nac anwybyddu'r arbenigedd sydd ar gael o fewn WEFO wrth lunio dulliau cyllido yn y dyfodol a dywedodd fod angen gweld "stamp" Cymru ar reoli a gweinyddu.[56]

**81.** Dywedodd y Dr Hywel Ceri Jones, cyn Lysgennad Cyllido'r Undeb Ewropeaidd, ei bod yn hollbwysig fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu uned ganolog gref fel bod ganddi arbenigedd a gallu penodol ar ôl Brexit.[57] Ychwanegodd hefyd:

> "This should serve as a centrepiece of its machinery, to ensure it has the intersectoral capacity, combined with experience and expertise on EU relations and the range of EU policies and programmes, to drive a

[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 177
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 24
[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraff 109
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 24
[56] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 17
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Hywel Ceri Jones

much more effective plan of action if Wales is to compensate for the withdrawal of the policies underlying the wide range of EU funding streams which have benefitted Wales over the past years, and also to set out a coherent programme of work and plan of delivery to take Wales forward."[58]

**82.** Cafwyd galwadau gan ymatebwyr am fwy o benderfyniadau rhanbarthol a lleol mewn perthynas â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Dywed yr adroddiad ar y cyd a luniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Sefydliad Bevan fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried datganoli cyfrifoldeb dros rai penderfyniadau i lefel ranbarthol neu leol.[59]

**83.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru osod cyfeiriad polisi rhanbarthol yng Nghymru gan fod angen i benderfyniadau gael eu gwneud ar y lefel fwyaf priodol. Fodd bynnag, y rhanbarthau sydd yn y sefyllfa orau i wybod beth yw'r prosiectau a'r blaenoriaethau gorau ar gyfer y bobl y maent yn eu gwasanaethu.[60]

**84.** Aeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymlaen i ddweud po fwyaf o gyllid y gallai'r rhanbarthau ei reoli a'i weinyddu, y mwyaf o gynllunio cydlynus fyddai'n cael ei wneud. Byddai hynny'n well na chael nifer fawr o brosiectau unigol yn ceisio gwneud pethau yn eu ffordd eu hunain.[61]

**85.** Galwodd FSB Cymru yn galw am weinyddu cyllid yn rhanbarthol mewn ffordd debyg i ranbarthau economaidd Llywodraeth Cymru. Yr oedd yn dadlau fel a ganlyn:

"This allows for flexibility based on the individual needs of different parts of Wales, whilst maintaining co-terminosity with other administrative and financial structures. These regions are also sufficiently large to ensure that larger projects have economy of scale to deliver wider benefits."[62]

[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Hywel Ceri Jones

[59] Ar ôl Brexit: Polisi economaidd rhanbarthol yng Nghymru, Sefydliad Bevan mewn partneriaeth â CLlLC

[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 310

[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 311

[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 17

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**86.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi y byddai unrhyw benderfyniad a wneir ar hyn o bryd yng Nghymru yn parhau yng Nghymru ac felly mae'n disgwyl i Lywodraeth Cymru gael rheolaeth lawn dros weinyddiaeth a'r cyfeiriad strategol ar gyfer cronfeydd olynol i ganiatáu i Lywodraeth Cymru ddylunio dull Cymreig.[63] Dywedodd:

> "20 years into devolution, the UK Government simply does not have the presence on the ground in Wales to run programmes of that sort. Inevitably, and quite properly, things that they were responsible for in 1998 we are responsible for in 2018, and it is the Welsh Government that has offices, people, partnerships and resources on the ground that make these things happen…they can't do it. We can do it, because we have done it for 20 years."[64]

**87.** Amlygodd Prif Weithredwr WEFO fod WEFO, dros 20 mlynedd, wedi datblygu profiad ac arbenigedd, a bod angen cadw hynny, boed hynny y tu mewn neu y tu allan i Lywodraeth Cymru. Awgrymodd y byddai cysylltiadau agosach ag adran economi Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol pe bai'r arbenigedd yn cael ei gadw yn y llywodraeth.[65]

**88.** Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet, pe bai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei datganoli, y bydd yn arwain at fod y gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau priodol yn cael ei ddirprwyo fwyfwy i ranbarthau ac ardaloedd lleol, gyda Llywodraeth Cymru yn pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol.[66]

**89.** Ychwanegodd Prif Swyddog Gweithredol WEFO fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i gael ei gyngor mewn perthynas â threfniadau llywodraethu aml-lefel, a fyddai'n galluogi'r math o ymgysylltiad ar draws rhanbarthau yr oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfeirio ato heb ei droi yn anghenfil o fiwrocratiaeth.[67]

**90.** Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet â'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor fod angen cadw arbenigedd WEFO. Cyfeiriodd at dystiolaeth y Dr Hywel Ceri Jones a

[63] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 209
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 266
[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 242
[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 244

chytunodd y bydd angen rhywfaint o allu canolog yn Llywodraeth Cymru i wneud y gaith hwn ar ôl Brexit.[68]

## Safbwynt y Pwyllgor

**91.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru a WEFO, yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, wedi bod yn rheoli, gweinyddu ac yn gwario cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn uniongyrchol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae WEFO wedi meithrin sgiliau ac arbenigedd sylweddol ac wedi sefydlu partneriaethau, ac mae ganddi'r strwythurau angenrheidiol i roi rhaglenni ar waith yn llwyddiannus.

**92.** Cred y Pwyllgor ei bod yn hollbwysig fod Llywodraeth Cymru yn gallu parhau i ddarparu polisi datblygu economaidd rhanbarthol ac mai dim ond drwy gael rheolaeth dros yr arian ar gyfer y maes polisi hwn y gellir cyflawni hyn. O gofio bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud y bydd pob penderfyniad a wneir yng Nghymru yn parhau yng Nghymru, mae'r Pwyllgor yn disgwyl iddynt anrhydeddu'r ymrwymiad hwn. Felly, mae'r Pwyllgor o'r farn bod achos cryf dros fod Llywodraeth Cymru yn parhau i reoli unrhyw arian newydd a ddyrennir i Gymru. Bydd hyn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu datblygu ei dulliau datblygu rhanbarthol er lles gorau Cymru.

**93.** At hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cadw'r arbenigedd a ddatblygwyd yn WEFO mewn rhyw ffurf, gan y bydd hyn yn fanteisiol i ffrydiau ariannu yn y dyfodol ac yn sicrhau trosglwyddiad llyfn o'r dulliau cyllido presennol i Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd y DU.

**94.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd, pe bai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei datganoli, y bydd hynny'n sicrhau bod y gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau priodol yn cael ei ddirprwyo fwyfwy i ranbarthau ac ardaloedd lleol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno mai Llywodraeth Cymru ddylai bennu'r fframwaith strategol gyffredinol ond y dylai'r cyfrifoldeb am rai penderfyniadau penodol gael ei roi i sefydliad ar lefel leol neu ranbarthol briodol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer yr ardal honno.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan y Dr Hywel Ceri Jones, cyn Lysgennad Cyllido yr UE, ac Ysgrifennydd y Cabinet fod angen uned ganolog yn Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit i sicrhau fod ganddi'r capasiti a'r arbenigedd angenrheidiol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn negodi gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Llywodraeth

[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 246

Cymru yn cael y cyfrifoldeb am weinyddu a rheoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu uned ganolog sydd â'r arbenigedd a'r capasiti angenrheidiol i ddarparu rhaglen gydlynus o gyllid ar ôl Brexit.

# 6. Sut y gallai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU weithredu yng Nghymru

## Y cefndir

**95.** Mae papur Llywodraeth Cymru, Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, yn cynnwys ei chynigion ar gyfer cyflwyno dull newydd o ddatblygu a buddsoddi economaidd ar ôl Brexit. Cyfeiria at y meysydd hynny yn y system Cronfeydd Strwythurol presennol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cadw, a'r rhai lle mae'n gweld cyfleoedd i gyflwyno newid ar ôl Brexit.

**96.** Yn dilyn cyfnod ymgynghori i brofi'r syniadau yn y papur, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar ymarfer ymgysylltu ym mis Gorffennaf 2018, yn nodi barn y rhai a oedd wedi ymgysylltu â'r llywodraeth.

## 6. 1. Dull strategol o weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru

### Tystiolaeth ymatebwyr

**97.** Roedd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn teimlo y gallai cefnu ar y Cronfeydd Strwythurol fod yn gyfle i Lywodraeth Cymru lunio dull strategol o weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU sy'n rhydd o'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â pholisi'r Undeb Ewropeaidd.

**98.** Soniodd y Dr Grahame Guilford fod y cyfyngiadau sy'n gynhenid yng nghyllid yr Undeb Ewropeaidd wedi effeithio ar ble a sut y gellir defnyddio cyllid. Dywedodd fod y rhain wedi ei gwneud hi'n anodd cysylltu amcanion rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol â blaenoriaethau datblygiad economaidd a chymdeithasol Llywodraeth Cymru. Dywedodd y bydd angen fframwaith strategol ar y lefel uchaf yn y dyfodol i sicrhau bod prosiectau sy'n cael eu cynnig yn cyd-fynd â'r cynllun strategol.[69]

**99.** Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod cyfle i gael mwy o hyblygrwydd yn hytrach na gorfod plygu blaenoriaethau i fodloni cyfleoedd thematig a benderfynwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.[70]

---

[69] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 194

[70] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 313

**100.** Mae Sefydliad Bevan yn awgrymu y dylai ffocws y cyllid a ddaw yn lle'r cyllid blaenorol fod ar gyflawni gwelliannau diriaethol mewn ffyniant dros y tymor hwy. Byddai hyn yn cyfeirio at ddull strategol sy'n cynnwys rhoi hwb i gynhyrchiant; gwella cyflogau ac ansawdd swyddi; a chynyddu sgiliau'r rheini sydd â'r lleiaf o gymwysterau.[71]

## Elfennau o'r Cronfeydd Strwythurol i'w cadw yn y broses weinyddu yn y dyfodol

**101.** Clywodd y Pwyllgor gan ymatebwyr fod tri maes y dylid eu trosglwyddo o'r Cronfeydd Strwythurol i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan gynnwys:

- cyllido amlflwydd;
- gweithio mewn partneriaeth; a'r
- ffocws trosfwaol ar y themâu trawsbynciol a ganlyn: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, prif ffrydio cydraddoldeb rhywiol, a datblygu cynaliadwy.

**102.** Mae arian yr Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar fframwaith cyllido amlflwydd gyda chyfnodau ariannu o saith mlynedd. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod cyllido amlflwydd yn gweithio'n dda ac y dylai barhau'n rhan o unrhyw raglenni olynol.

**103.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod arian tymor hwy yn dangos gwerth gwell am arian o gymharu â chyllid blynyddol.[72] Aeth rhagddi i ddweud:

> "When you've got a stream of projects that are being taken forward, and there's funding over a number of years, you've got that flexibility to move money between the projects depending on how they're delivering. So, if one experiences a bit of a hold-up, you can shift the funding across to another that's moving forward, and move the funding back at a later date."[73]

[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 27

[72] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 328

[73] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 328

**104.** O ran gweithio mewn partneriaeth, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn galw am gynrychiolaeth o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wrth ddatblygu ffrydiau cyllido olynol. Dywedodd:

> " This will support the co-production of activities that build resilience and prosperity within Wales' most deprived communities."[74]

**105.** Dywedodd Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru fod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn gyfle i gyflwyno strwythurau rheoli mwy cynhwysol. Soniodd y cafwyd elfen gref o gynllunio a rheoli "o'r brig i'r bôn" yn y gorffennol a bod hynny'n aml wedi ymyleiddio chwarewyr lleol allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, sydd â chlust feinach o ran anghenion a chyfleoedd lleol.[75]

**106.** Dywedodd Chwarae Teg fod gan gyllid presennol yr Undeb Ewropeaidd ffocws clir ar fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb a bod llawer iawn o brosiectau a gefnogir gan yr Undeb Ewropeaidd hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi menywod, a mynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb rhyw. Ym marn Chwarae Teg, dylai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU barhau i ganolbwyntio ar y materion hyn.[76]

**107.** Ychwanegodd Julie Morgan AC, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru, y dylai unrhyw gyllid disodli adeiladu ar y gwaith blaenorol a wnaed i annog merched i astudio pynciau STEM, sef gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Dywedodd fod y gwahanol brosiectau fu ar gael i wneud hynny wedi bod yn rhagorol.[77]

## Ffyrdd o newid a gwella'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin newydd y DU

**108.** Mae rhai sefydliadau wedi galw am fwy o hyblygrwydd o ran y trefniadau cyllido, a chyfuno cyllid i greu rhaglen integredig o fuddsoddiad ar draws economïau lleol a rhanbarthol.

**109.** Galwodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am uno cyllid refeniw a chyfalaf drwy greu un gronfa sy'n caniatáu integreiddio strategol a phrosesau llawer symlach ar gyfer cael gafael ar gyllid a'i ddarparu. Dywedodd:

[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 07

[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 18

[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 24

[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 216

> "Yn draddodiadol, mae partneriaid wedi gorfod ymgeisio am ffrydiau cyllido cyfalaf a refeniw ar wahân, wrth gystadlu, gyda phob rhaglen â'i threfniadau rheoli rhaglen ei hun, meini prawf buddsoddi a gwahanol ofynion gweinyddol. Yn anochel mae hyn wedi arwain at fuddsoddi mewn seilos, diffyg integreiddio a'r ffit strategol sydd ei angen i gael effaith ystyrlon ar economi'r rhanbarth."[78]

**110.** Cytunodd Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru gan ddweud:

> "The division between ERDF and ESF funding streams reflects structures in Brussels but it does not make much sense on the ground to separate off economic development from skills."[79]

**111.** Cafwyd cefnogaeth ysgubol gan ymatebwyr i symleiddio'r trefniadau ariannu yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a lleihau biwrocratiaeth y trefniadau. Soniodd y Dr Guilford fod llawer o ofynion archwilio y Cronfeydd Strwythurol yn deillio o nifer o enghreifftiau o dwyll yn fuan wedi iddynt gael eu sefydlu. Dywedodd:

> "we had ended up with a multi-layered audit structure…which was really out of proportion to the level of risk that actually existed…So, we have the ability now in Wales to set a system that is appropriate to the level of risk that we're actually talking about now."[80]

**112.** Cyfeiriodd rhai o'r tystion hefyd at yr angen i symud i system werthuso sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na mewnbynnau. Cyfeiriodd yr Athro David Bell at yr angen am fonitro a gwerthuso cadarn mewn modd sy'n lleihau'r gwaith gweinyddol, ond sy'n galluogi i ganlyniadau gael eu gwerthuso ar ôl i brosiect gael ei gynnal i asesu ei effaith o fewn cyd-destun economaidd neu economaidd-gymdeithasol i Gymru gyfan.[81]

**113.** Awgrymodd yr Athro Fothergill y gallai fod cyfyngiadau i'r hyn y gellir ei werthuso, oherwydd yr anhawster o fesur yn ddibynadwy a yw prosiectau unigol wedi cael effaith ar ffactorau megis Cynnyrch Domestig Gros. Dywedodd:

[78] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 10

[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 18

[80] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 244

[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraff 249

> " Therefore, establishing the outcome in terms of economic outcome really requires you to define what would have happened in the absence of it, and that is a hugely thorny question."[82]

**114.** Fodd bynnag, cytunodd yr Athro Fothergill fod achos, o bosibl, am gyffyrddiad ysgafnach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn perthynas â phrosesau monitro ac archwilio.[83]

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**115.** SonioddYsgrifennydd y Cabinet fod yna ddulliau presennol o ymdrin â'r Cronfeydd Strwythurol sy'n cael eu gwerthfawrogi'n benodol gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu. Roedd o'r farn bod hyn yn gryfder mawr o'i gymharu â pholisi domestig, ac y gellid ei gryfhau fwy fyth gan ganolbwyntio ar gydgynhyrchu mewn trefniadau olynol. Soniodd hefyd fod rhaglenni amlflwydd hirdymor yn rhoi sicrwydd i fuddsoddwyr ac yn annog buddsoddiadau mwy cynhyrchiol.[84]

**116.** Dywedodd Prif Weithredwr WEFO ei bod wedi ymgynghori fel rhan o'i pharatoadau ar gyfer dyfodol cyllid rhanbarthol, ac roedd yr ymatebwyr wedi dweud bod cyllid amlflwydd yn gadarnhaol iawn gan ei fod yn rhoi eglurder ynghylch cyllid dros cyfnod o amser sy'n eu galluogi i ddatblygu rhai prosiectau cadarn iawn.[85] Ychwanegodd hefyd:

> "They like regional partnership working, and the fact that cross-cutting themes, such as equality and sustainability, can be built in. They are built in very, very early on in the project, rather than added on at the end."[86]

**117.** Dywedodd Prif Weithredwr WEFO fod tîm yn WEFO ar hyn o bryd sy'n gweithio'n benodol ar sicrhau bod themâu trawsbynciol yn cael eu hymgorffori ar gamau cynnar pob prosiect.[87] Dywedodd:

> "Actually, the modelling that we work with would lend itself well to how Welsh Government then brings in the Well-being of Future Generations

---

[82] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraff 250
[83] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraff 250
[84] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
[85] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 195
[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 195
[87] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 217

> (Wales) Act 2015 and how we ensure that that's embedded in all our programmes across the piece."[88]

**118.** Fodd bynnag, nododd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd nad "efelychu cronfeydd yr UE yng Nghymru" yw nod Llywodraeth Cymru a'i bod wedi canfod cyfleoedd "i wneud pethau'n wahanol". Mae cynigion Llywodraeth Cymru yn cynnwys integreiddio trefniadau â buddsoddiad a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r rhanbartholi ar ddatblygu economaidd a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.[89]

**119.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at nifer o ffyrdd y mae'n gweld Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn wahanol i'r Cronfeydd Strwythurol, gan gynnwys:

- Integreiddio cronfeydd lluosog a dileu cyfyngiadau daearyddol artiffisial fel nad oes rhaid i fuddsoddiadau mewn pobl, busnesau ac ardaloedd gwledig gael eu gwahanu'n artiffisial na chael eu cyfyngu'n ddaearyddol;
- Symleiddio trefniadau a safoni dulliau gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru, fel dull rheoli grantiau cyffredin yn seiliedig ar y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau; a
- Datblygu dull monitro a gwerthuso mwy cadarn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na mewnbynnau, sy'n cynnwys amcanion llesiant, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â rhai economaidd, ac sy'n annog arloesedd.[90]

**120.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, y bydd gennym, ar ôl Brexit, fwy o hyblygrwydd i edrych ar y modd yr ydym yn defnyddio'r arian sydd ar gael i ni gan gynnwys cael gwared ar gyfyngiadau daearyddol, er mwyn caniatáu i arian gael ei wario y tu allan i ffiniau daearyddol llym, pe byddai hynny o fudd i'r ardaloedd hynny sydd fwyaf o'i angen.[91]

**121.** Tynnodd sylw hefyd at gyfyngiadau cyllid yr Undeb Ewropeaidd mewn meysydd megis tai, a dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai gan Lywodraeth Cymru fwy o hyblygrwydd dros gyllid yn y dyfodol, gan ychwanegu:

---

[88] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 217

[89] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

[90] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

[91] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 202

> "There are things we will be able to do with the money, potentially, that we have not been able to do up until now. And, of course, we will want to be able to use the funding in a way that does away with some of the artificial separation between different funding streams that you have to sustain in the European context."[92]

**122.** O ran lleihau biwrocratiaeth y trefniadau gweinyddol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y gallai sefydliadau partner dibynadwy ac sydd â hanes o gydymffurfio â gofynion ariannu allu ymgymryd â phrosesau gweinyddol llai beichus na sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid am y tro cyntaf. Defnyddiodd Brifysgol Abertawe fel enghraifft o bartner sydd wedi bod yn rhan o bob rownd o gyllid yr Undeb Ewropeaidd, gan ddweud:

> "…we would not expect Swansea University to go through every bit of testing that an organisation has to be part of a funding stream in the future, They are a trusted partner in that sense, we know where they are, we know their record, and they do not have to go through every hoop that you have to go through every single time in order to qualify for funding. If it was an organisation that you knew nothing about, that were coming to you for the very first time looking for funding, well, of course, the bar would be higher in terms of what you'd expect them to demonstrate to you before funds were committed."[93]

**123.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Medi ei fod yn gobeithio gwneud datganiad ar bolisi rhanbarthol yn ystod yr wythnosau nesaf.[94]

## Safbwynt y Pwyllgor

**124.** Mae safbwyntiau Cymru ar y ffordd y mae'r Cronfeydd Strwythurol yn gweithredu, a beth sydd angen ei newid ar ôl Brexit, yn hynod berthnasol ledled y Deyrnas Unedig, gan fod gennym fwy o brofiad o reoli'r Cronfeydd Strwythurol na llawer o rannau eraill. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynigion a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar sut y gallai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wella ar y trefniadau presennol, ac ymgysylltiad llawer o sefydliadau ac unigolion â hwy.

**125.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y gallu i werthuso'n feirniadol sut mae'r Cronfeydd Strwythurol wedi gweithio yng Nghymru ac i gyflawni gwelliannau ar ôl Brexit yn

[92] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 202
[93] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraffau 250 a 251
[94] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2018, paragraff 231

ddangosydd pwysig y dylai'r gwaith o reoli a gweinyddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU gael ei ddatganoli i Gymru.

**126.** Calonogwyd y Pwyllgor gan y ffaith fod cymdeithas sifil Cymru wedi ymgysylltu'n fawr â chynigion Llywodraeth Cymru. Mewn sawl ardal, bu consenswς rhwng barn y rhai a ymatebodd i alwad y Pwyllgor am dystiolaeth a chynigion Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu hefyd yn dod â syniadau a heriau newydd i gynigion, ac mae'r Pwyllgor hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y rhain yn llawn wrth fireinio ei pholisi datblygu rhanbarthol.

**127.** Noda'r Pwyllgor fod Cymru wedi elwa o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a bod y dulliau gweithredu presennol yn gweithio'n dda mewn nifer o feysydd, ac yn cael eu gwerthfawrogi. Fodd bynnag, roedd llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn awyddus i gael llai o fiwrocratiaeth, a dylai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â hyn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwysigrwydd o wneud gwiriadau archwilio ar y trefniadau gweinyddol ar gyfer cyllido ond mae'n credu bod hwn yn gyfle i sicrhau bod y lefelau yn addas ac yn ateb y diben. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod barn Ysgrifennydd y Cabinet y gall sefydliadau partner dibynadwy, ac sydd â hanes o gydymffurfio â'r gofynion cyllido, allu ymgymryd â phrosesau gweinyddol llai beichus.

**128.** Fodd bynnag, bydd dull newydd o gyllido yn gyfle i feddwl am yr arferion presennol ac yn gyfle i ddysgu gwersi a gwella systemau. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i ddatblygu dull a fydd yn sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu gwireddu.

**129.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod manteision cyllid amlflwydd, sy'n darparu sicrwydd ac yn gyfle i ddatblygu prosiectau cadarn sy'n cynnig gwerth am arian, ac ar yr un pryd yn rhoi sicrwydd bod cyllid ar gael dros gyfnod y cylch gwleidyddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth.

**130.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd wedi canolbwyntio'n glir ar hybu cydraddoldeb, mynd i'r afael â thlodi, a hawliau dynol. Mae nifer fawr o brosiectau a gefnogir gan yr UE wedi canolbwyntio'n benodol ar gefnogi menywod ac rydym yn nodi'r gwaith a wnaed eisoes gan Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru i annog menywod i astudio pynciau STEM. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai unrhyw gronfeydd olynol barhau i ganolbwyntio ar y materion hyn.

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU:

- ddarparu cyllid amlflwydd;

- sicrhau gweithio mewn partneriaeth; a
- pharhau i brif ffrydio cydraddoldeb yng Nghymru.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar symleiddio'r trefniadau gweinyddol ac yn defnyddio dulliau fel y rhai a gynigir ar gyfer sefydliadau partner dibynadwy, pe bydd yn gallu datganoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar hybu cydraddoldeb, mynd i'r afael â thlodi, a hawliau dynol wrth weinyddu cyfran Cymru o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn y dyfodol.


# 7. Disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin - Bargen deg i Gymru

## Y cefndir

### 7. 1. Arian teg ar gyfer sector amaethyddol Cymru

**131.** Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn rhoi £274 miliwn y flwyddyn o daliadau uniongyrchol i ffermwyr ac £80 miliwn o arian ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig.[95] Fel yn achos y gwledydd datganoledig eraill, mae Cymru yn cael cyllid PAC sy'n fwy na'i chyfran o'r boblogaeth, gan dderbyn bron 10 y cant o ddyraniad y Deyrnas Unedig yn y rownd gyfredol o gyllid yr Undeb Ewropeaidd. Mae Ffigur 7 yn dangos canran arian CAP y Deyrnas Unedig a ddyfarnwyd i bob gwlad yn y Deyrnas Unedig o gymharu â'r gyfran o'r boblogaeth.

**Ffigur 7: Y gyfran o gyllideb Polisi Amaethyddol Cyffredin y Deyrnas Unedig a ddyfarnwyd i bob gwlad yn y Deyrnas Unedig yn 2014-20 o gymharu â'r gyfran o'r boblogaeth**




Ffynonellau: Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig, Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, UK CAP allocations announced

**132.** Mae effaith cyllid CAP ar ffermydd unigol wedi bod yn sylweddol, yn enwedig o ystyried mor dynn yw'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r sector. Yn 2016-17, roedd 56 y

[95] Llywodraeth Cymru, Diogelu Dyfodol Cymru

cant o ffermydd Cymru naill ai wedi gwneud colled, neu y byddent wedi gwneud hynny heb gymorthdaliadau. Mae'r ffigur hwn yn codi i 62 y cant yn achos ffermydd gwartheg a defaid yn yr ardaloedd llai ffafriol lle mae bron i 80 y cant o ffermydd Cymru.[96]

**133.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo y bydd arian CAP yn cael ei warantu tan 2022.[97] 2019 fydd y flwyddyn olaf i gael ei gweinyddu gan ddefnyddio rheolau'r Undeb Ewropeaidd, oni bai y ceir Brexit heb gytundeb – bryd hynny, 2018 fydd y flwyddyn olaf. Caiff blynyddoedd 2020 a 2021 eu gweinyddu gan ddefnyddio arian y Deyrnas Unedig.

**134.** Fel cyd-destun ehangach, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig lleihau taliadau PAC uniongyrchol i ffermwyr ryw ychydig o dan y fframwaith cyllidol amlflwydd (MFF) newydd, o 2021 ymlaen.[98] Roedd llythyr at Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi yn nodi bod ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal yr un cyfanswm arian parod mewn cronfeydd ar gyfer cymorth fferm hyd at 2022 yn seiliedig ar yr arian sydd ar gael ar hyn o bryd o dan MFF 2014-2020.[99]

**135.** Ar 12 Medi 2018, cafodd Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig[100] ei osod yn Senedd y Deyrnas Unedig. Diben y Bil yw awdurdodi gwariant newydd at ddibenion amaethyddol a dibenion eraill penodol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch taliadau uniongyrchol yn ystod cyfnod pontio amaethyddol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.[101]

**136.** Mae Cymal 27 ac Atodlen 3 y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud:

> "Further provisions relating to Wales can be found in Schedule 3. This is at the request of the Welsh Government in order to continue making payments to farmers and land managers once the UK leaves the EU, to make changes to current schemes and to enable implementation of replacement land management schemes. These powers are intended

---

[96] Llywodraeth Cymru, Incwm Fferm yng Nghymru 2016-17

[97] Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Farming for the next generation

[98] Y Comisiwn Ewropeaidd, EU budget for the future

[99] Y Gweinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, Llythyr at Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE, Tŷ'r Arglwyddi, 11 Medi 2017

[100] Llywodraeth y DU, Bil Amaethyddiaeth 2017-19

[101] Llywodraeth y DU, Bil Amaethyddiaeth 2017-19

> to be time limited until a Welsh Agriculture Bill can be brought forward."[102]

**137.** Ar ôl i Fil Amaethyddiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddod yn ddeddf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno ei deddfwriaeth sylfaenol ei hun ar amaethyddiaeth cyn i dymor y Cynulliad hwn ddod i ben yn 2021.[103]

## Tystiolaeth ymatebwyr

**138.** Cododd undebau ffermio Cymru – Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) – yr angen i Gymru barhau i dderbyn dyraniadau ar gyfer cyllid ôl-PAC yn yr un modd ag sydd wedi digwydd yn y gorffennol yn hytrach na chyllid yn seiliedig ar gyfran poblogaeth Cymru. Dywedodd FUW wrth y Pwyllgor:

> "The FUW has lobbied for assurances that in the short term Wales' share of the fixed budget assured by Secretary of State Michael Gove should remain unchanged, and that in the long term Wales should receive a needs-based allocation which is no less than would have been the case had the UK voted to remain in the European Union."[104]

**139.** Dywedodd NFU Cymru fod angen i ffermwyr Cymru gael eglurhad ar frys y bydd y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth Cymru yn y dyfodol yn parhau i gael ei ddyrannu ar sail cyfran gymharol Cymru, fel yn y gorffennol, ac na fydd yn cael ei ailbennu ar sail cyfrifiad o'r gyfran o'r boblogaeth.[105] Dywedodd yr undebau ffermio pe bai fformiwla Barnett yn cael ei ddefnyddio i ddyrannu cyllid ôl-CAP, y byddai Cymru'n colli llawer o'i chyllid blynyddol.[106]

**140.** Galwodd NFU Cymru hefyd am i'r cyllid at y dyfodol gael ei gorlannu ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig rhag ystumio marchnad fewnol y Deyrnas Unedig.[107] Gwnaeth FUW alwad debyg, gan nodi bod yn rhaid sefydlu fframwaith ariannol rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig i sicrhau gwariant gweddol

---

[102] Llywodraeth y DU, Mesur Amaethyddiaeth: Nodiadau Esboniadol

[103] Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Datganiad Ysgrifenedig - Lansio Brexit a'n tir, 10 Gorffennaf 2018

[104] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 22

[105] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 09

[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 09

[107] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 09

gyfartal ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, a hefyd i gydnabod datganoli a rhywfaint o hyblygrwydd.[108]

**141.** Dywedodd yr Athro Bell ei fod yn rhagweld y bydd polisi arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Lloegr yn arwain at ostyngiad yn y gwariant cyffredinol ar amaethyddiaeth yn Lloegr. Pe byddai fformiwla Barnett yn cael ei defnyddio i wneud newidiadau blynyddol mewn cyllid, byddai hyn yn golygu y byddai Cymru yn cael llai o arian yn y dyfodol.[109]

## 7. 2. Rheoli cyllid amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol

**142.** Mae amaethyddiaeth wedi'i ddatganoli i Gymru ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu ym 1999, gyda Llywodraeth Cymru yn rheoli taliadau'r PAC i ffermwyr ac yn penderfynu ar bolisi o fewn gofynion deddfwriaethol a chyfyngiadau ariannu yr Undeb Ewropeaidd.

**143.** Pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, mae cymorth amaethyddol yn un o'r 24 maes lle disgwylir y bydd fframweithiau deddfwriaethol ledled y Deyrnas Unedig, gan fod y rhain wedi'u nodi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn feysydd lle mae angen hyn.[110] Ar ôl mis Mawrth 2019, gall wneud rheoliadau sy'n gosod cyfyngiadau am hyd at ddwy flynedd, felly mae'n bosibl y cyfyngir ar bwerau'r Cynulliad tan fis Mawrth 2026.

**144.** Mae ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gymorth amaethyddol ar ôl y PAC i Loegr,[111]a ddaeth i ben ym mis Mai 2018, yn nodi mewn perthynas â datganoli y bydd yn:

> "i. continue to work closely with the devolved administrations to agree where a common approach is required across the UK. Where commonality is essential we expect to need UK wide legislative frameworks.
>
> ii. continue to work closely on areas where commonality is desirable and where it may be possible to consider cooperative arrangements such as Memorandums of Understanding or more informal arrangements. Informal arrangements could include information

[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 22

[109] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Yr Athro David Bell, Prifysgol Stirling

[110] Swyddfa'r Cabinet, Frameworks analysis: breakdown of areas of EU law that intersect with devolved competence in Scotland, Wales and Northern Ireland

[111] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit

sharing on new design and outcomes of environmental and productivity schemes."

## Tystiolaeth ymatebwyr

**145.** Galwodd yr ymatebwyr am barchu'r setliad datganoli, ac i Gymru gael y rhyddid i ddatblygu ei pholisïau rheoli tir ei hun sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng sectorau ffermio Cymru a Lloegr o fewn fframwaith y Deyrnas Unedig gyfan.

**146.** Dywedodd CIPFA y dylai'r model cyllido newydd ystyried y materion a ganlyn:

- There should be no erosion of the Welsh Governments devolved powers for Agriculture. In fact, depending in the nature of the future relationship with the EU and wider trade requirements, Wales should have flexibility to develop Welsh specific funding practices based on its own objectives for the sector. [112]

**147.** Mae'r FUW wedi galw am fframwaith ariannol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan sy'n sicrhau unffurfiaeth gymharol o ran gwariant mewn meysydd penodol, sydd hefyd yn cydnabod datganoli ac yn cynnig hyblygrwydd. Byddai peidio â chyflawni hyn yn arwain at y posibilrwydd o ystumio'r farchnad yn ddifrifol rhwng cynhyrchwyr a diwydiannau ym marchnad sengl y Deyrnas Unedig. Mae ei dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad yn dweud bod fframwaith tebyg yn bodoli gyda chronfeydd cyfredol yr Undeb Ewropeaidd i atal gwahaniaethau rhwng Aelod-wladwriaethau.[113]

**148.** Gwnaeth yr Athro Marsden y pwynt y bydd cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer cymorth rheoli tir yn Lloegr yn cael effaith negyddol ar ffermydd teuluol bach, ac y dylid gwarchod y rhain yng Nghymru. Tynnodd sylw at yr angen i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer ffermio yng Nghymru sy'n ystyried hyn, a hefyd cododd y pwynt y byddai hyn yn helpu i warchod y dreftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol nodedig a oedd yn bresennol mewn ffermio teuluol yng Nghymru.[114]

**149.** Cododd yr Athro Bell yr angen i ystyried natur anghysbell rhai cymunedau ffermio yng Nghymru a'r Alban. Dywedodd fod llawer mwy o angen cymorth

[112] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 19

[113] Y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Fframweithiau cyffredin y DU ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd: UK12 Undeb Amaethwyr Cymru

[114] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraffau 268 - 272

gwledig ar ffermydd sy'n cael trafferth i oroesi yn y cymunedau hyn nag yn Lloegr, ac felly mae angen hyblygrwydd wrth bennu polisi.[115]

**150.** Amlygodd ymatebwyr hefyd y cyfleoedd i Gymru gynllunio polisïau cymorth rheoli tir sy'n adlewyrchu'n hanghenion yn well yn dilyn y Deyrnas Unedig yn gadael y PAC yn 2020.

**151.** Awgrymodd yr Athro Dwyer fod angen newid y dull presennol o weithredu'r CAP. Mae'n ei grynhoi fel a ganlyn:

> "Opaque handouts with draconian controls driven too much by an emphasis upon fixed rules and penalties with insufficient regard to notions of proportionality and fairness, to respectful exchange based upon a long-term agreed relationship, rewarding fairly and intelligently and sanctioning cost-effectively."[116]

**152.** Cyfeiriodd yr Athro Dwyer hefyd at gyfleoedd i symleiddio'r beichiau gweinyddol a rheoleiddio gan gynnwys prosesau ariannu tryloyw; gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi ffyrdd costeffeithiol o gyflawni canlyniadau dymunol; a chadw staff hirdymor i ddarparu cyswllt parhaus gydag unigolion, grwpiau a busnesau sy'n gwneud cais am gymorth.[117]

**153.** Galwodd yr Athro Marsden ar Gymru i dargedu a darparu cefnogaeth yn seiliedig ar ddull ecolegol-economaidd cryf. Byddai'n darparu cefnogaeth i bartneriaethau, a fyddai'n cynnwys ffermwyr unigol cyhyd â'u bod yn gweithio mewn partneriaethau â rhanddeiliaid eraill yn eu hardal leol i gynhyrchu bwydydd o ansawdd uchel yn gynaliadwy mewn cytgord â nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol eraill.[118]

**154.** Roedd yr FUW yn awyddus i gadw'r agweddau hynny ar y PAC y mae o'r farn eu bod yn gweithio, a pheidio â gwneud newidiadau gweinyddol a fyddai'n amharu ar systemau neu yn gosod costau ychwanegol. Fodd bynnag, teimlai y dylai rhaglen yn y dyfodol asesu anghenion daearyddol yn well ar lefel fwy lleol i ddarparu cyllid teg sy'n ystyried anghenion ac economïau gwahanol ardaloedd trefol a gwledig.[119]

---

[115] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraff 262

[116] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 20

[117] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 20

[118] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Yr Athro Terry Marsden

[119] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 22

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**155.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (EPRA) wedi ymrwymo y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu taliadau uniongyrchol i ffermwyr tan flwyddyn 2019 y cynllun. O 2020, bydd pwerau'n dychwelyd o Ewrop, a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu cyfnod pontio tuag at ei bolisi newydd, a fydd yn cael ei gwblhau erbyn 2025.[120]

**156.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at bwysigrwydd cyllid CAP i'r sector amaethyddol, gan dynnu sylw at y ffaith ei fod yn cael effaith sylweddol ar unigolion sy'n derbyn yr arian, yn enwedig mewn perthynas â ffrydiau ariannu eraill.[121]

**157.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig fod angen trafodaethau manwl i gytuno ar y lefelau cyllido a'r fframweithiau i'r Deyrnas Unedig sydd i'w sefydlu ar gyfer rhaglen i olynu'r PAC. Bydd ei hymagwedd tuag at sicrhau cyllid teg i Gymru yn cynnwys bod y cyllid ar ôl PAC yn seiliedig ar y gyfran gyfredol yn hytrach nag ar gyfran y boblogaeth fel yn achos fformiwla Barnett.[122]

**158.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gorlannu'r cyllid amaethyddol yn y tymor byr. Ychwanegodd:

> "Post 2021, when we've got a new Welsh Government, obviously I can't make that commitment for that. Maybe you'd like to make that recommendation as a committee."[123]

**159.** Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig sylw hefyd nad oedd o'r farn y byddai'r posibilrwydd am ostyngiad mewn cyllid amaethyddol yn Lloegr, y cyfeiriwyd ato gan yr Athro Bell, o reidrwydd yn arwain at ostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i amaethyddiaeth yng Nghymru. Dywedodd fod amaethyddiaeth wedi'i ddatganoli ers bron i 20 mlynedd, felly mae angen i Lywodraeth Cymru gael cyllideb deg, a bod gwariant ar amaethyddiaeth yn fater i Lywodraeth Cymru.[124]

---

[120] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 8 Mai 2018, paragraff 340
[121] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 193
[122] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
[123] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 66
[124] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 74

**160.** Mewn datganiad ym mis Mai 2018, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig:

> "Mae'r achos dros ddatganoli yn gryfach nag erioed o'r blaen. Mae cyfansoddiad ein sector ffermio ni yn wahanol iawn i weddill y Deyrnas Unedig, Lloegr yn arbennig felly. Mae ein tirwedd ni yn fwy amrywiol, mae ein cymunedau gwledig yn gyfran fwy o'r boblogaeth, ac mae amaethyddiaeth yn rhan fwy cyfannol o we ein diwylliant, yn enwedig o'r iaith Gymraeg. Mae gennym gyfle sy'n codi unwaith mewn cenhedlaeth i ailgynllunio ein polisïau mewn modd sy'n gyson â dull cyfannol unigryw Cymru, gan ddarparu ar gyfer ein heconomi, ein cymdeithas a'r amgylchedd naturiol."[125]

**161.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig fod ffermio ucheldiroedd yn faes penodol lle yr oedd yn bwysig i Gymru sicrhau datganoli, oherwydd y gwahaniaethau yn anghenion polisi a chymorth ffermwyr o'u cymharu â llawer o ardaloedd yn Lloegr.[126] Dywedodd hefyd y byddai pwysigrwydd y Gymraeg i sector amaethyddol Cymru yn creu effaith ddwbl pe byddai ffermydd teuluoedd bach yn peidio â bodoli.

**162.** I nodi ei weledigaeth o gymorth amaethyddol datganoledig yn y dyfodol, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Brexit a'n tir, ym mis Gorffennaf 2018, ymgynghoriad i bolisi amaethyddol arfaethedig yn y dyfodol. Mae'n cynnig dau gynllun trosfwaol i ddisodli'r PAC.

**163.** Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad aral yn ysgo gwanwyn 2019, a chyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wneud darpariaeth ar gyfer diwygiadau cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.[127]

## Safbwynt y Pwyllgor

**164.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr effaith bwysig y mae cyllid PAC wedi'i chael ar y sector rheoli tir, gyda thaliadau uniongyrchol i ffermydd unigol yn cael effaith sylweddol yn yr 80 y cant o Gymru a ddosberthir fel "Ardal Lai Ffafriol". Gyda dros hanner y ffermydd yng Nghymru naill ai'n gwneud colled neu angen cymhorthdal

[125] Ysgrifennydd y Cabinet dros dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Amaeth a Rheoli Tir, 21 Mawrth 2018

[126] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 262

[127] Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Datganiad Ysgrifenedig - Lansio Brexit a'n tir, 10 Gorffennaf 2018

i osgoi hyn, mae'n hanfodol bod Cymru'n cael cyfran deg o'r cyllid amaethyddol ar ôl Brexit.

**165.** O gofio bod Cymru ar hyn o bryd yn cael arian PAC sy'n ddwywaith ei chyfran o boblogaeth y Deyrnas Unedig, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hollbwysig fod y dyraniadau cychwynnol ar ôl Brexit yn cael eu rhoi i wledydd y Deyrnas Unedig ar y sail bresennol. Byddai hyn yn osgoi peryglon sefyllfa lle defnyddir fformiwla Barnett i ddyrannu arian, a fyddai'n golygu bod y tair gwlad ddatganoledig ar eu colled yn sylweddol.

**166.** Mae'r Pwyllgor yn cydymdeimlo â'r farn bod angen i'r sector amaethyddol gael mwy o sicrwydd dros gyllid hirdymor pan fydd gwarant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dod i ben yn 2022 ac mae'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gorlannu'r cyllid yn y tymor byr. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr anhawster o gorlannu cyllid ar gyfer amaethyddiaeth y tu hwnt i dymor presennol Llywodraeth Cymru, ond mae'n credu bod angen sicrwydd ar y sector amaethyddiaeth a byddai'n annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid cyflawni hyn.

**167.** Fodd bynnag, mae hefyd yn wir bod Llywodraeth Cymru yn ansicr ynghylch faint o gyllid y bydd yn ei gael mewn setliad ôl-PAC. Felly, mae'r Pwyllgor yn dymuno gwneud argymhelliad cyfrifol sy'n deall yr ansicrwydd y mae'r sector amaethyddol a Llywodraeth Cymru yn ei wynebu am nad ydynt yn gwybod yn iawn sut y bydd setliadau cyllido yn gweithredu yn y tymor hwy.

**168.** Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylai'r trefniadau cymorth amaethyddol ar ôl Brexit barchu'r setliad datganoli, ac y dylai Cymru allu defnyddio'i phwerau i gefnogi anghenion penodol sector rheoli tir Cymru. Mae'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn nodi'r angen am fframwaith ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer cymorth amaethyddol rhag bod y farchnad yn ystumio oherwydd bod polisïau cwbl wahanol yng ngwledydd y Deyrnas Unedig.

**169.** Mae cyfansoddiad y sector amaethyddol yng Nghymru yn sylweddol wahanol i'r sector yn Lloegr, o gofio bod ffermio ucheldiroedd yn llawer mwy cyffredin yng Nghymru, a bod gan boblogaeth Cymru gyfran fwy o lawer o gymunedau gwledig. Felly, mae'n amlwg i'r Pwyllgor fod angen i bolisïau "gwnaed yng Nghymru" fodloni'r anghenion penodol hyn a bod angen iddynt ddiogelu ffermydd teuluol bach sydd wedi bod yn rhan o fywyd gwledig Cymru ers canrifoedd. Byddai peidio â gwneud hynny yn cael effaith ddeuol ar gymunedau gwledig a hefyd ar y Gymraeg.

**170.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yna gyfleoedd clir i wella polisïau presennol y PAC. Yn y cyd-destun hwn, mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei chynigion i gyflawni hyn, a'i bod wedi gosod amserlen ar gyfer cwblhau'r rhain a'u cyflawni drwy ddeddfwriaeth. Nid yw'r Pwyllgor fel arfer yn gwneud sylwadau ar rinweddau gwahanol ddewisiadau polisi. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr amrywiaeth o gynigion o fewn Cymru, y mae ef a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi'u cael, wedi cryfhau'r achos ymhellach i Lywodraeth Cymru gael yr hyblygrwydd mwyaf posibl i ddatblygu polisi ar gyfer cymorth rheoli tir.

**Casgliad 4.** Pe bai Cymru'n cael o leiaf y lefel bresennol o gyllid pan benderfynir ar y dyraniadau ar ôl y PAC, byddai'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid corlannu'r lefel gyllido bresennol y tu hwnt i dymor presennol Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 5.** Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu fframwaith ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan ar gyfer cymorth amaethyddol i sicrhau bod Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig yn gallu manteisio ar bolisïau ffres sy'n cael eu cyfeirio'n fwy at eu hanghenion penodol nag yr oedd y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Cymru yn parhau i gael y lefel bresennol o gyllid ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Dylid gwarantu hyn am nifer o flynyddoedd er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector rheoli tir.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod fframwaith y Deyrnas Unedig gyfan ar gyfer cymorth amaethyddol yn parchu'r setliad datganoli ac yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i Lywodraeth Cymru i'w galluogi i wneud penderfyniadau sy'n cefnogi anghenion penodol y sector rheoli tir yng Nghymru.


# 8. Ffrydiau cyllido eraill

## 8. 1. Cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi

**171.** Horizon 2020 yw rhaglen gyllido ymchwil ac arloesi yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2014-20. Mae'n rhoi pwyslais ar wyddoniaeth ardderchog, arweinyddiaeth ddiwydiannol a mynd i'r afael â heriau cymdeithasol.[128] Yn gyffredinol, ers dechrau'r rhaglen, y Deyrnas Unedig yw'r ail Aelod-wladwriaeth fwyaf lwyddiannus o bob un o wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, gan sicrhau bron i 15 y cant o gyllid a dros 12.5 y cant o gyfranogiadau.[129] Mae sefydliadau Cymru wedi cael ychydig dros €83 miliwn o gyllid Horizon 2020 ers dechrau'r rhaglen. Mae hyn wedi cynnwys 191 o gyfranogiadau a 2,000 o gydweithrediadau rhyngwladol.[130]

**172.** Mae'r cyllid hwn yn arbennig o bwysig i sector addysg uwch ac addysg uwchradd Cymru. Cafodd y sector hwnn 66 y cant o'r cyllid a ddyfarnwyd i sefydliadau Cymru yn 2016/17, ac ef oedd 64 y cant o'r cyfranogiadau yn Horizon 2020 yn ystod 2016/17.[131] Mae Ffigur 8 yn dangos y cyfranogiadau yn Horizon 2020 yn ôl sector yn 2016/17.

Ffigur 8: Cyfranogiadau yn Horizon 2020 yn ôl sector yn 2016/17




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol Horizon 2020 yng Nghymru 2017

[128] Y Comisiwn Ewropeaidd, Beth yw Horizon 2020?

[129] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol Horizon 2020 yng Nghymru 2017

[130] Llywodraeth Cymru, Horizon 2020

[131] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol Horizon 2020 yng Nghymru 2017

**173.** Fel rhan o'r fframwaith ariannol amlflwydd nesaf (2021-27), mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gweithio ar ei gynnig ar gyfer Horizon Europe,[132] y rhaglen fframwaith a fydd yn olynu Horizon 2020. Gyda dyraniad cyllideb arfaethedig o €97.9 biliwn, hon fyddai rhaglen fwyaf yr Undeb Ewropeaidd erioed i gyllido ymchwil ac arloesi.[133]

**174.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i gytundeb gwyddoniaeth ac arloesi pellgyrhaeddol gyda'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n awyddus i drafod yr opsiwn o gymdeithas lawn â Horizon Europe wedi ei seilio ar dri maes: strwythur, dylanwad a chyfraniad.[134]

## Tystiolaeth ymatebwyr

**175.** Mae sector y brifysgol yn arbennig o bryderus ynghylch dyfodol ansicr cyllid ymchwil ac arloesi. Yn ôl Prifysgolion Cymru:

> "We see it as very important, however, to secure continued participation in Erasmus+ and European research and innovation programmes, including Horizon 2020."[135]

**176.** Hoffai Prifysgol Caerdydd eglurder ynglŷn â dylanwad a mynediad parhaus y Deyrnas Unedig i Horizon 2020 a rhaglenni ymchwil ac arloesi yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Dywedodd nad dim ond cyllid yw'r fantais i Gymru o gymryd rhan yn Horizon 2020, ond hefyd aelodaeth o rwydweithiau a chyfleoedd cydweithio. Yn eu barn hwy, mae parhau â'r rhain yn hanfodol i'r Deyrnas Unedig allu cynnal ei statws fel arweinydd ym maes ymchwil ac arloesedd.[136]

**177.** Dywedodd Prifysgol Caerdydd wrth y Pwyllgor hefyd, mewn sefyllfa lle nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gallu sicrhau mynediad at raglenni ymchwil ac arloesedd yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, y dylai ddarparu arian sy'n cyfateb i'r swm a sicrhawyd o Horizon 2020 fel cyfraniad uwch i gyllideb gwyddoniaeth ac ymchwil y Deyrnas Unedig . Dylai hefyd gynnig dulliau eraill o sefydlu cyngor ymchwil rhyngwladol â gwledydd blaenllaw eraill.

**178.** Tynnodd CIPFA sylw at bwysigrwydd cyllid ymchwil ac arloesedd ar ôl Brexit, ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru wneud yr achos i Lywodraeth y Deyrnas Unedig y dylai lefel y cyllid ymchwil barhau'n gyson o leiaf. Dylai hyn fod yn wir

[132] Y Comisiwn Ewropeaidd, EU Budget for the Future
[133] Y Comisiwn Ewropeaidd, The Commission's Proposals for Horizon Europe
[134] Llywodrath EM, Framework for the UK-EU partnership: Science, research and innovation
[135] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 08
[136] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 12

beth bynnag yw'r sefyllfa o ran y rhan a fydd gan y Deyrnas Unedig yn rhaglenni ymchwil ac arloesedd yn yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.[137]

**179.** Dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod y system a'r lefel o ardal ddaearyddol y dylai Cymru gydweithio â hi yn dibynnu i raddau ai pwrpas cyllid ymchwil ac arloesedd yw gwneud ymchwil fel lles y cyhoedd, neu i hyrwyddo datblygu rhanbarthol drwy ddarparu mwy o gyllid i sefydliadau mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn economaidd.[138]

**180.** Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid o'r farn, os mai pwrpas y cyllid ymchwil yw lles y cyhoedd, yna mae budd amlwg mewn trefniadau cyllido cystadleuol sy'n cwmpasu'r ardal ddaearyddol fwyaf bosibl, boed hynny ar lefel y Deyrnas Unedig neu drwy fod y Deyrnas Unedig yn cymryd rhan yn rhaglenni ymchwil ac arloesedd yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, os yw'r ffocws ar ddatblygu rhanbarthol, efallai y bydd cynllun sy'n cwmpasu'r Deyrnas Unedig neu Gymru gyfan yn gallu ystyried materion megis hybu ymchwil a datblygu mewn rhanbarthau dan anfantais, yn ogystal ag ansawdd gwyddonol a chostau a buddion cyffredinol.[139]

## 8. 2. Banc Buddsoddi Ewrop

### Y cefndir

**181.** Mae pob un o 28 Aelod-wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd yn gyfranddaliwr ym Manc Buddsoddi Ewrop (EIB). Caiff y cyfranddaliadau eu cyfrifo gan bwysoliad economaidd pob Aelod-wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae gan y Deyrnas Unedig 16 y cant o gyfanswm gwerth y cyfranddaliadau cyffredinol yn yr EIB.[140]

**182.** Mae'r Deyrnas Unedig wedi cytuno i ddarparu €39 biliwn o gyfalaf yr EIB, yn unol ag Erthygl 4 o statud yr EIB. Fodd bynnag, mae'r statud hefyd yn darparu mai dim ond tua 9 y cant o'r arian hwn y bu'n rhaid ei dalu yn syth, gyda rhywfaint o'r gweddill neu'r cyfan yn cael ei alw i mewn pe byddai Bwrdd Cyfarwyddwyr y Banc yn credu bod hynny'n angenrheidiol. Golyga hyn mai ychydig o dan € 3.5 biliwn yr oedd y Deyrnas Unedig wedi'i gyfrannu erbyn mis Rhagfyr 2016.

**183.** Pan fydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, o dan y rheolau presennol byddai'n peidio â bod yn gymwys i fod yn aelod o'r EIB. Mae'r

[137] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2018, paragraff 140

[138] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 21

[139] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 21

[140] Banc Buddsoddi Ewrop, Shareholders

Undeb Ewropeaidd wedi cynnig dychwelyd cyfraniad cyfalaf y Deyrnas Unedig pan fydd holl fenthyciadau'r EIB ar yr adeg y bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael wedi'u cwblhau.[141]

**184.** Ym mis Mehefin 2018, dywedodd Jake Berry, Is-ysgrifennydd Seneddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol:

> "The Government considers that it may prove to be in the mutual interest of all sides for the UK to maintain some form of ongoing relationship with the EIB Group after leaving the EU. We will explore these options with the EU as part of the negotiations on the future relationship, and will also consider whether any further government support is required."[142]

**185.** Ym mis Gorffennaf 2018 dywedodd Pennaeth yr EIB, Werner Hoyer, ei fod yn ystyried bod posibilrwydd o hyd i'r Deyrnas Unedig barhau'n aelod o'r EIB ar ôl iddi adael yr Undeb Ewropeaidd. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n drist iawn pe na fyddai gobaith i'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn rhan o'r EIB, oherwydd bod gan y ddwy ochr rywbeth i'w gynnig i'w gilydd.[143]

## Tystiolaeth ymatebwyr

**186.** Cyfeiriodd nifer o sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor at y pwysigrwydd o barhau i gael mynediad at gyllid Banc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit. Dywedodd CIPFA fod y EIB wedi llofnodi contractau cyllid gwerth €23.6 biliwn yn y Deyrnas Unedig rhwng 2014 a 2017, gan gynnwys seilwaith ar gyfer Dŵr Cymru Welsh Water (€582 miliwn ar gyfer dau brosiect yn 2014 a 2017)[144] a phrosiect optimeiddio Prifysgol Abertawe (€71 miliwn[145])[146]

**187.** Cyfeiriodd Chwarae Teg at bwysigrwydd Banc Buddsoddi Ewrop fel ffynhonnell amgen bosibl o gyllid pe byddai Cymru yn colli cyllid ar ôl Brexit. Dywedodd fod angen eglurhad ynghylch sefyllfa'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol mewn perthynas â'r EIB.[147]

---

[141] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, The European Investment Bank

[142] Hansard, 19 Mehefin 2018, Cwestiwn Ysgrifenedig 152765

[143] Financial Times, European Investment Bank wants UK to remain a member

[144] Banc Buddsoddi Ewrop, Financed Projects

[145] Banc Buddsoddi Ewrop, Financed Projects

[146] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 19

[147] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 24

**188.** Awgrymodd Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru[148] a Chwarae Teg[149] fod angen eglurder pa un a fyddai Cymru yn gymwys i gael cyllid gan Fanc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit; os na fydd, gallai datblygu banc buddsoddi rhanbarthol fod yn ddewis arall.

## 8. 3. Ffrydiau cyllido cydraddoldeb

**189.** Dywedodd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig na fydd colli cyllid yr UE yn cael effaith niweidiol ar yr ymdrechion i hybu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.[150] Nodwyd na fu penderfyniad hyd yma ynghylch a fydd y DU yn disodli cyllideb y Gronfa Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth, a'r Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio.

**190.** Dywedodd ei bod yn awyddus i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw Brexit yn tanseilio seilwaith cydraddoldeb a hawliau dynol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymchwil academaidd, er enghraifft ar drais yn erbyn menywod a sut i'w blismona, a gwasanaethau'r sector gwirfoddol, er enghraifft y rhai sy'n cynorthwyo pobl hŷn ac anabl mewn cyflogaeth.[151]

**191.** Ategwyd y pryderon hyn gan y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.[152] Roedd yn sôn bod y Gronfa Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth yn cefnogi'n uniongyrchol brosiectau sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, troseddau casineb a gwahaniaethu. Mae dros draean y prosiectau a ariennir gan y gronfa hon yn rhoi cymorth uniongyrchol i bobl yn y DU. Mae'r fforwm yn galw am gyllid yn lle'r gronfa hon ar ôl Brexit.

### Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**192.** Yn ei Phapur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru, dywed Llywodraeth Cymru mai parhau i gymryd rhan yn Horizon 2020 fyddai'r dewis mwyaf manteisiol i Gymru. Adleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y farn honno:

> "I think it is very important from a Welsh perspective that we do continue to be able to participate in the successor programme to Horizon 2020."[153]

[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 03
[149] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 24
[150] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 28
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 28
[152] Tystiolaeth ysgrifenedig, EUF 26
[153] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 270

**193.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiad y rhaglen Horizon Europe fel ei bod yn datblygu mewn ffordd sy'n dod â'r budd mwyaf i'r Deyrnas Unedig, drwy ganolbwyntio ar ansawdd ymchwil. Fodd bynnag, mewn sefyllfa lle nad yw'r Deyrnas Unedig yn cymryd rhan yn Horizon Europe, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:

> "If we can't have Horizon 2020, should we just have a UK fund with the same amount of money that universities can bid to. And the answer from universities is that these will not be equivalents at all. … if you're being asked to give up a relationship, let us say, with the Sorbonne, and to substitute it for a relationship with a university that's essentially a teaching university somewhere else in the United Kingdom, that is not going to give you the same research impact for the investment that you are making. So, having the equivalent amount of money is not the same as having the same level of quality of research, and if you don't have the same quality of research, then your ability to attract people who are very mobile, and who can be employed anywhere they like, will be diminished as well."[154]

**194.** O ran yr EIB, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "Yn ein Papur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru, rydym wedi nodi hefyd y dylai'r DU barhau i fod yn bartner tanysgrifio i'r Banc. Mae'r Banc yn cynnig buddiannau uniongyrchol i'n heconomi yn ogystal â gwella ein capasiti economaidd mewn mannau eraill, gan felly hybu'r amgylchedd masnachu byd-eang a gefnogwn. Mae manteision ychwanegol i Gymru a'r DU o gael mynediad at arbenigedd masnachol sylweddol yn y Banc. Mae prosiect Metro De Cymru, er enghraifft, wedi elwa ar arbenigedd masnachol y Banc yn llywio'r broses gaffael, ac yn yr un modd mae buddsoddiadau blaenorol yng Nghymru wedi elwa ar arbenigedd ac arfer gorau'r Banc."[155]

**195.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yr arbenigedd masnachol sylweddol yn yr EIB, a dywedodd fod prosiect Metro De Cymru yn enghraifft o brosiect sydd wedi elwa o'r arbenigedd hwn wrth lywio'r broses gaffael.[156]

---

[154] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 272

[155] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

[156] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

**196.** Mae Cymru'n cael tua £1.9 miliwn y flwyddyn o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn y Cyfarfod Llawn y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu datganoli, fel yn achos yr Alban, trwy gael cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer pysgodfeydd o fewn parth Cymru. Fodd bynnag, dywedodd hefyd y bydd angen gweithio â gweddill y Deyrnas Unedig i ddatblygu fframwaith ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan gan fod rheoli pysgodfeydd yn un o'r 24 maes polisi lle mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn y bydd angen hyn.[157]

**197.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig y bydd angen i Lywodraeth Cymru, ar ôl Brexit, edrych ar roi mwy o arian i'r sector pysgodfeydd nag y mae'n ei gael ar hyn o bryd, ac y bydd angen mwy o ffocws ac adnoddau arno. Dywedodd fod hwn yn faes y bydd hi'n ei drafod gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wrth ystyried cyllidebau'r dyfodol.[158]

**198.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ei bod yn rhagweld y bydd gwarant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cwmpasu elfen ariannu yr Undeb Ewropeaidd o holl brosiectau cyfredol Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a gymeradwywyd cyn diwedd y cyfnod pontio, er bod y trafodaethau yn parhau.[159]

## Safbwynt y Pwyllgor

**199.** Mae'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi gan y dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid a Llywodraeth Cymru y byddai o fudd i Gymru barhau i gymryd rhan yn rhaglenni ymchwil ac arloesedd yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, gan gynnwys Horizon Europe a fydd yn cychwyn yn 2021. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn awyddus i drafod yr opsiwn o gymdeithas lawn â Horizon Europe, a'i bod yn ffafrio trafodaethau a fydd yn canolbwyntio ar strwythur, dylanwad a chyfraniad y Deyrnas Unedig.

**200.** Wrth ddod i'r farn hon, roedd y Pwyllgor yn arbennig o ymwybodol o lwyddiant y Deyrnas Unedig wrth sicrhau cyllid ac arloesedd drwy Horizon 2020, a bod y cyfle i ffurfio cydweithrediadau a rhwydweithiau â sefydliadau o Aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd yn ychwanegu cryn werth at y buddion ariannol a ddaw yn sgil y cyllid.

[157] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 3 Gorffennaf 2018, paragraffau 361-362

[158] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 156

[159] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 154

**201.** Fodd bynnag, os nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn llwyddo i gael mynediad at Horizon Europe, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai gael effaith ariannol ar brifysgolion Cymru yn ogystal â rhwystrau i gydweithio'n effeithiol â sefydliadau ymchwil mawr eu bri yn Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Felly, bydd yn hynod bwysig bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithredu i sicrhau bod cyllideb ymchwil y Deyrnas Unedig yn cael lefelau cyllido sydd gyfwerth â chyllid Horizon 2020 neu hyd yn oed yn fwy.

**202.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn archwilio opsiynau gyda'r Undeb Ewropeaidd i gynnal perthynas â'r EIB yn y dyfodol ar ôl Brexit. Oherwydd nad oes corff tebyg yn y Deyrnas Unedig a all ddarparu'r un math o gyllid ar gost gyfatebol, mae hyn yn hollbwysig i Gymru o ystyried y prosiectau seilwaith pwysig y mae'r EIB wedi eu cefnogi.

**203.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r EIB yn y dyfodol oherwydd y rheolau presennol sy'n golygu y bydd yn peidio â bod yn aelod ar ôl Brexit. Fodd bynnag, mae'n annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithio'n greadigol yn ystod y trafodaethau ymadael i sicrhau perthynas barhaus â'r EIB.

**204.** Roedd y Pwyllgor yn siomedig i glywed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig am y diffyg eglurder sydd ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â chyllid a fydd ar gael yn y dyfodol o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, yn enwedig mewn perthynas â chyllid ar gyfer gwyddoniaeth a gorfodi. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen mwy o sicrwydd ar y rhai sy'n ymwneud â'r sector pysgodfeydd, yn enwedig yr unigolion neu'r sefydliadau hynny sy'n cael cyllid ar gyfer gwyddoniaeth a gorfodi.

**205.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth am effaith ffrydiau ariannu eraill yr Undeb Ewreopeaidd ar gydraddoldeb a hawliau dynol, fel y Rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r farn na ddylai colli cyllid o'r ffrydiau hyn effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Nid yw'r Pwyllgor am weld hyn yn effeithio ar feysydd sydd wedi cael cyllid o'r ffynhonell hon, ac mae'n cydnabod yr effaith y mae cydweithio rhwng gwahanol Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd wedi'i chael ar hybu cydraddoldeb.

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i geisio mynediad at Horizon Europe, ac mae'n ei hannog i ddod i drefniant lle gall Cymru a'r Deyrnas Unedig gymryd rhan yn y rhaglen hon. Fodd bynnag, os na all y Deyrnas Unedig sicrhau mynediad at Horizon Europe, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau bod cyllideb

ymchwil a gwyddoniaeth y Deyrnas Unedig yn cael cyllid ychwanegol sy'n cyfateb i'r hyn a sicrhawyd gan y Deyrnas Unedig o Horizon 2020 neu fwy

**Casgliad 7.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig roi mwy o eglurder sut y bydd Gwarant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar ddarparu'r Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop bresennol, ac ar faint y gwarant.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal perthynas barhaus â Banc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit i sicrhau y gall Cymru a'r Deyrnas Unedig elwa o fuddsoddiad parhaus mewn prosiectau seilwaith allweddol.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i ystyried dulliau o sicrhau bod modd i Gymru gadw manteision ffrydiau ariannu'r UE i hybu cydraddoldeb, fel y rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth, a bod y cyllid hwn yn parhau ar ôl Brexit.

# Atodiad A – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 13 Mehefin 2018 | Julie Morgan AC, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru<br>Dr Grahame Guilford, Llysgennad Cyllid yr UE<br>Sioned Evans, Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru<br>Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd, Cyngor Abertawe a Dirprwy Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a llefarydd ar Ddatblygu Economaidd, Ewrop ac Ynni<br>Tim Peppin, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 21 Mehefin 2018 | Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan<br>Alan Bermingham, y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth<br>Yr Athro Steve Fothergill, Prifysgol Hallam, Sheffield<br>Yr Athro David Bell, Prifysgol Stirling<br>Yr Athro Terry Marsden, Prifysgol Caerdydd |
| 27 Mehefin 2018 | Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig<br>Tim Render, Cyfarwyddwr, Amgylchedd a Materion Gwledig<br>Tony Clark, Pennaeth Cyllid, Adnoddau Naturiol a Bwyd<br>Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid<br>Peter Ryland, Prif Swyddog Gweithredu, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

# Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Sefydliad | Cyfeirnod |
|---|---|
| Cyngor y Gweithlu Addysg | EUF 01 |
| Undeb Cenedlaethol Addysg Cymru | EUF 02 |
| Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru | EUF 03 |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | EUF 04 |
| Colegau Cymru | EUF 05 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | EUF 06 |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | EUF 07 |
| Prifysgolion Cymru | EUF 08 |
| Undeb Cenedlaethol Ffermwyr Cymru | EUF 09 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | EUF 10 |
| GIG Cymru Cyfarwyddwyr Cyllid | EUF 11 |
| Prifysgol Caerdydd | EUF 12 |
| Parciau Cenedlaethol Cymru | EUF 13 |
| Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru | EUF 14 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | EUF 15 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | EUF 16 |
| Ffederasiwn Cenedlaethol yr Hunangyflogedig a Busnesau Bach Cymru | EUF 17 |
| Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru | EUF 18 |
| Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth | EUF 19 |
| Yr Athro Janet Dwyer, Prifysgol Gloucester | EUF 20 |
| Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid | EUF 21 |
| Undeb Amaethwyr Cymru | EUF 22 |
| Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru | EUF 23 |
| Chwarae Teg | EUF 24 |
| Comisiynydd y Gymraeg | EUF 25 |
| Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | EUF 26 |
| Sefydliad Bevan | EUF 27 |

| | |
|---|---|
| Comisiwn Cydraddoldeb ac Hawliau Dynol | EUF 28 |
| Yr Athro Steve Fothergill, Prifysgol Sheffield Hallam | EUF 29 |
| Dr Grahame Guilford, Aelod o Bwyllgor Monitro Rhaglen, Rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 | EUF 30 |

### Gwybodaeth ychwanegol

Tystiolaeth ysgrifenedig: Dr Hywel Ceri Jones, Cyn Lysgennad Cyllid Ewropeaidd

Tystiolaeth ysgrifenedig: Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru

Tystiolaeth ysgrifenedig: Dr Grahame Guilford

Tystiolaeth ysgrifenedig: Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Tystiolaeth ysgrifenedig: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Tystiolaeth ysgrifenedig: Yr Athro David Bell, Prifysgol Stirling

Tystiolaeth ysgrifenedig: Yr Athro Terry Marsden, Prifysgol Caerdydd